# Llais Ogwan

Papur Bro Dyffryn Ogwen

**Rhifyn 536 · Tachwedd 2022 · 50c**

# Cofio Godfrey



Ym marwolaeth Godfrey Northam yn 83 oed collodd Dyffryn Ogwen un o'r cymeriadau anwylaf i droedio wyneb y ddaear erioed . Ar ben hynny, collwyd gŵr diwyd, cymwynasgar a gweithiwr diflino dros ei fro fabwysiedig.

Bu'n bennaeth yr Adran Mathemateg yn Nyffryn Ogwen am flynyddoedd lawer a thystiai pawb a fu dan ei ofal yno ei fod yn athro trylwyr, yn deg ac yn mynnu'r safonau uchaf. Bu hefyd yn aelod gweithgar yn ei gapel yn Rachub a bydd y capel hwnnw'n gweld bwlch mawr iawn ar ei ôl.

Bu'n gwasanaethu fel cynghorydd cymuned a sirol ar ran y Blaid Lafur am amser hir a bu hefyd yn ddiwyd yn rhannu taflenni ac yn canfasio ar ran y blaid honno. Doedd o ddim yn benboeth dros ei ddaliadau gwleidyddol ond roedd o'n gadarn, yn gwrtais ac yn gredwr cryf mewn sosialaeth a chymdeithas lle cai'r gwannaf gymorth a lle cyfrannai pawb yn ôl ei allu a'i dalentau.

Un o Ystrad Mynach yng Nghwm Rhymni oedd Godfrey'n wreiddiol a glöwr oedd ei dad ac efallai mai hynny a olygai mai'r Blaid Lafur oedd ei gartref naturiol.

Pan ddaeth o i fyw yn Nyffryn Ogwen yn ôl yn dechrau'r saithdegau doedd Godfrey ddim yn siarad Cymraeg ond addawodd y byddai ef a'i deulu'n siarad yr iaith mewn blwyddyn ac fe wnaeth hynny. Ymhen dim amser roedd Cymraeg Godfrey'n ddigon agos i fod yn rhugl.

Daethom ni fel teulu i'w adnabod pan ymunodd â'r criw oedd yn cynhyrchu Llais Ogwan tua chanol y 70au. Ymdaflodd i'r gwaith o hel hysbysebion i helpu i dalu am y papur, ac aeth ati i dynnu lluniau ac i werthu'r papur bro o ddrws i ddrws.

Os oedd rhywbeth angen ei wneud, Godfrey oedd y dyn i ysgwyddo'r baich. Byddai'n galw yn ein tŷ ni yn y Gerlan yn rheolaidd bob wythnos ac weithiau'n amlach gyda phwt o newyddion, llun, hysbyseb neu stori. Roedd o'n gymeriad hoffus ac annwyl ond ar yr un pryd roedd iddo nodweddion unigryw.

Roedd ganddo ddyfalbarhad a phenderfyniad diderfyn ac roedd o'n berchen rhyw egni anghyffredin. Yn wir, bu'n drysorydd Llais Ogwan am gyfnod maith a gallem fod yn gwbl ddiogel fod cyfrif ganddo am bob ceiniog.

Roedd o'n ddyn darbodus tu hwnt ac ni allem beidio gwenu wrth edrych ar ryw lythyr neu adroddiad o'i eiddo. Nid yn unig roedd o wedi ysgrifennu ar y llinellau arferol, ond roedd o hefyd wedi defnyddio ymylon y ddalen i fyny ac i lawr yr ochrau, ar draws y top ac ar hyd y gwaelod. Nid oedd milimedr o wyn ar ôl. Dyn na allai oddef gweld gwastraff ac un a oedd yn ailgylchu ymhell cyn i hynny ddod yn beth ffasiynol.

Dim ond am ryw flwyddyn wedi iddo golli ei wraig, Jean, y cafodd y fro hon fwynhau cwmni a gwasanaeth Godfrey. Yn y diwedd cipiwyd ef oddi arnom gan waeledd mileinig ac estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf at ei blant a'i deulu. Go brin y gwelir ei debyg eto am amser maith.

**Derfel Roberts**

# Godfrey, neu Mr Northam

Fy athro mathemateg yn fy mlwyddyn gyntaf yn Ysgol Dyffryn Ogwen. Cymeriad unigryw a phenderfynol ag iddo ryw ddycnwch heb ei debyg.

Roedd rhyw gwrteisi eithriadol yn perthyn iddo, fel pe bai'n perthyn i gyfnod arall, ond roedd ganddo hefyd flas y presennol ym mhopeth a wnâi.

Pan fyddai'n ymroi i unrhyw achos neu ymgyrch, gwnai hynny ag arddeliad llwyr. Nid dyn yr hanner ffordd oedd Mr Northam, o na!

Roedd ei waed yn goch, a'i gariad at ei wlad, ei iaith a'i bobl yn ddiamod.

Yr oeddem, fel disgyblion, yn adnabod Tegwen a Geraint ei blant cyn eu cwrdd, cymaint oedd ei frwdfrydedd wrth siarad amdanynt.

A Jean, ei wraig, oedd yn ganolog i bopeth a wnâi, yn ei gefnogi'n dawel, yn gefn iddo.

Rhoddodd hanner canrif o wasanaeth dros y Blaid Lafur, gan rannu'r wefr o sicrhau llywodraeth i Gymru yn '97.

Rwy'n cofio'r tawelwch bodlon fwynhaodd o ar Fai 1af 1999 pan agorwyd y Senedd am y tro cyntaf.

Roedd yn sosialydd o'r iawn ryw, ac yn un a roesai ei bobl gyntaf. Roedd yn gynghorydd gweithgar, ac yn ased gwirioneddol i'r gymuned.

Wythnos cyn ei farwolaeth, fe ffoniodd gartref fy rhieni, a digwyddais ateb yr alwad. Doedd o ddim yn dda, ond doedd o ddim yn cwyno.

Ei eiriau olaf? 'Wnei di gofio gwneud cacen neu ddwy ar gyfer y Ffair Nadolig?'.

Mi fydd y Dyffryn tipyn tlotach lle o'i golli.

**Lowri Roberts**

# Llais Ogwan

**Rhif 536**
Tachwedd 2022

**Panel Golygyddol**

**Ieuan Wyn**
(Ffôn 600297)
ieuanwyn01@gmail.com
**Lowri Roberts**
(Ffôn 07815 093955)
l.roberts11@btinternet.com
**Neville Hughes**
(Ffôn 600853)
nev_hughes@btinternet.com
**Dewi A Morgan**
(Ffôn 602440)
dewimorgan@live.co.uk
**Trystan Pritchard**
(Ffôn 07402 373444)
trystanrp1@gmail.com
**Walter a Menai Williams**
(Ffôn 601167)
waltermenai@yahoo.co.uk
**Rhodri Llŷr Evans**
(Ffôn 07713 865452)
Rhodri.llyr.evans@gmail.com
**Owain Evans**
(Ffôn 07588 636259)
owain.evans1@gmail.com
**Carwyn Meredydd**
(Ffôn 07867 536102)
carwynian@hotmail.com
**Rhys Llwyd**
(Ffôn 01248 601606) rmll42@live.co.uk
**Catrin Wager**
(Ffôn 07930 280075)
catrinwager@yahoo.co.uk

**Swyddogion**

**CADEIRYDD**
Dewi A Morgan, Park Villa,
Lôn Newydd Coetmor,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3DT (Ffôn 602440)
dewimorgan@live.co.uk

**TREFNYDD HYSBYSEBION**
Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda LL57 3PA (Ffôn 600853)
nev_hughes@btinternet.com

**YSGRIFENNYDD**
Gareth Llwyd, Talgarnedd,
3 Sgwâr Buddug, Bethesda
LL57 3AH (Ffôn 601415)
garethllwyd197@btinternet.com

**TRYSORYDD:**
Paul Rowlinson, Crud yr Awel,
Lôn Newydd, Coetmor,
Bethesda LL57 3DT
(Ffôn 01248 605365 / 07949 034967)
PaulJRowlinson@outlook.com

**Y Llais drwy'r post:**
Owen G Jones, 1 Erw Las,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3NN (Ffôn 600184)
post@llaisogwan.com

## Golygydd y Mis

Golygwyd rhifyn y mis hwn gan
**Trystan Pritchard.**

Y golygydd ym mis **Rhagfyr** fydd
**Neville Hughes,**
14 Ffordd Pant, Bethesda, Ll57 3PA.
01248 600853
E-bost: nev_hughes@btinternet.com

Pob deunydd i law erbyn **dydd Sadwrn, 26 Tachwedd** os gwelwch yn dda.
Casglu a dosbarthu
**Nos Iau, 15 Rhagfyr,**
yng Nghanolfan Cefnfaes am 6.45

**DALIER SYLW:** NID OES GWARANT Y BYDD UNRHYW DDEUNYDD FYDD YN CYRRAEDD AR ÔL Y DYDDIAD CAU YN CAEL EI GYNNWYS.

## CLWB CYFEILLION

**Gwobrau Tachwedd**

| | |
|---|---|
| £30.00 (6) | Joseph D. Hughes, Ffordd Ffrydlas, Bethesda. |
| £20.00 (93) | Karen Aston, Erw Las, Bethesda. |
| £10.00 (88) | Linda Parker. Gwel y Nant, Bethesda. |
| £5.00 (167) | Alan Williams, Star, Gaerwen. |

## Llais Ogwan ar CD

Gellir cael copi trwy gysylltu â swyddfa Cymdeithas Deillion Gogledd Cymru, Bangor (01248 353604).

Os gwyddoch am rywun sy'n cael trafferth â'i olwg, ac a hoffai dderbyn copi o'r Llais ar CD bob mis, cysylltwch ag un o'r canlynol:
**Gareth Llwyd** – 601415
**Neville Hughes** – 600853

## Archebu trwy'r post

**Gwledydd Prydain** – £22
**Ewrop** – £30
**Gweddill y Byd** – £40
Owen G. Jones, 1 Erw Las, Bethesda, Gwynedd LL57 3NN
post@llaisogwan.com
01248 600184

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

## Dyddiadur y Dyffryn

**Tachwedd**
**18** Eisteddfod Dyffryn Ogwen. Neuadd Ogwen. 6.00.
**19** Bore Coffi Apel Tracey Smith. Cefnfaes. 10.00 – 12.00.
**19** Eisteddfod Dyffryn Ogwen. Ysgol Dyffryn Ogwen . 10.00.
**23** Marchnad Nadolig Ogwen. Neuadd Ogwen. 5.00 – 8.00
**26** Bore Coffi Plaid Lafur Dyffryn Ogwen. Cefnfaes. 10.00 – 12.00.
**28** Clwb Coffi Talybont. Festri Bethlehem Talybont. 10.30 – 12.00.
**28** Ffair Nadolig. Festri Capel Bethlehem, Talybont am 6.30.
**30** Cymdeithas Hanes Rachub. Clwb Criced a Bowlio am 7.00, Anna Pritchard yn trafod ei gwaith gwehyddu a chlust-nodau defaid lleol.

**Rhagfyr**
**01** Bingo Nadolig. Clwb Criced a Bowlio am 7.00.
**03** Bore Coffi Plaid Cymru. Cefnfaes. 10.00 – 12.00.
**05** Te Bach. Festri Carmel Llanllechid. 2.30 – 4.00.
**05** Merched y Wawr Tregarth. Cinio Nadolig.
**08** Y Gymdeithas. Festri Jerusalem am 7.00.
**08** Cymdeithas Hanes Rachub. Clwb Criced a Bowlio am 7.00. Defnyddio diffibriliwr gyda Mr. Arwyn Jones.
**10** Marchnad Ogwen. Neuadd Ogwen. 9.30 – 1.30.
**10** Bore Coffi er budd Organ Jerusalem. Cefnfaes. 10.00 – 12.00.
**11** Cyngerdd Côr Merched "Cantabile". Eglwys Sant Tegai am 6.00.
**12** Cymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen. Festri Jerusalem am 7.00.
**12** Clwb Coffi Talybont. Festri Bethlehem. 10.30 – 12.00
**15** Noson Gasglu a Dosbarthu Llais Ogwan. Cefnfaes am 6.45.
**18** Gwasanaeth Nadolig Cymunedol. Capel Jerusalem am 7.00.
**18** Gwasanaeth Naw Llith a Charol. Eglwys Sant Tegai am 6.00

**L. Sturrs**
**a'i feibion**
sefydlwyd yn 1965
ADEILADWYR
**Hen Iard Stesion,**
**Ffordd y Stesion, Bethesda**
**Ffôn: 600953**
**lsturrs@googlemail.com**

# Y Gerlan

**Caren Brown**, Cilwern, 14 Ffordd Gerlan, Bethesda, LL57 3ST.
(01248 602509 / 07789 916166)
carenelaine@hotmail.com
**Linda Brown**, 1 Gwernydd, Gerlan, Bethesda, LL57 3TY. (01248 601526)

**Ffrindiau yn Cwblhau Hanner Marathon Caerdydd**

Fysa fy ffrind, Catrin Doyle, a finnau erioed wedi dychmygu y bysa ni byth yn cwblhau hanner marathon efo'n gilydd pan fu i ni ddod yn ffrindiau am y tro cyntaf yn Ysgol Gerlan tua 50 mlynedd yn ôl. Ond dyna fu hanes y ddwy ohonom ni ar yr 2ail o Hydref eleni. Cawsom ddiwrnod arbennig yng Nghaerdydd ac 'roedd yr awyrgylch anhygoel yno'n help mawr i'r ddwy ohonom gyrraedd y llinell derfyn. Da ni wedi llwyddo nid yn unig i gwblhau hanner marathon efo'n gilydd, ond hefyd i godi arian i elusennau wrth wneud. Diolch i bawb am ein noddi a llongyfarchiadau mawr i bawb arall a lwyddodd i gwblhau'r daith anhygoel o amgylch y ddinas. Dyma lun ohonom efo'n ffrind Andy wedi i ni dderbyn ein medalau - 'roedda ni wedi blino ond cawsom fwynhau gweddill y diwrnod yn ymlacio yn y ddinas efo teulu a ffrindiau. Diolch pawb am y gefnogaeth ac am y negeseuon caredig.



**Gwesty Aduniad**

Os oeda chi'n gwylio Gwesty Aduniad ar y 4ydd o Hydref, mae'n debyg y byswch chi wedi gweld wyneb cyfarwydd ar y sgrin - Eli Davies o Gwernydd. Chydig iawn ohono ni oedd yn gwybod bod Eli yn gallu siarad Portiwgaleg ac wedi gallu helpu teulu oedd yn chwilio am fedd berthynas coll ym Mrasil. Da iawn chdi Eli!

**Cydymdeimlo**

Ar yr 11eg o Hydref, bu farw Bethan Jones, merch Huw Waen a'r diweddar Terry a llys ferch Gwenno. 'Roedd Bethan yn chwaer i Siôn , Sioned a Rhian Wyn ac yn gannwyll llygaid y diweddar nain a thaid Waen. Bu farw yn llawer rhy ifanc a gyrrwn ein cydymdeimlad dwysaf atoch i gyd fel teulu.

Gyrrwn ein cydymdeimlad hefyd at Myfanwy Owen, Stryd y Ffynnon a gollodd ei mhâm yng nghyfraith Nance Owen yn ddiweddar. Cofion atat a'r teulu i gyd.

**Yn yr ysbyty**

Gyrrwn ein cofion cynnes at bawb sydd yn yr ysbyty neu wedi bod dros y mis diwethaf.

Mae Mrs Ann Williams Stryd y Ffynnon wedi cael llawdriniaeth yn Ysbyty Walton ac yn debygol o aros yn yr ysbyty dan ofal meddygon tra mae'n derbyn sesiynau ffisiotherapi dwys. Cofion cynnes atat Ann.

Cofion cynnes a gwellhad buan i Mr Dafydd Morris Y Garnedd Uchaf ac i Chris O'Marah yn Gwernydd hefyd.

**Priodas**

Llongyfarchiadau mawr i Nick a Claire Gladden Ffordd Gerlan ar eu priodas ddiweddar. Deallwn eich bod yn symud i gartref newydd hefyd ac felly pob dymuniad da i chi fel teulu.

**Croeso i Gerlan**

Croeso i Josh Hughes, Wil a Hollie sydd wedi symud i Tŷ Bach Twt, Rhes Gerlan. Gobeithio y byddwch yn setlo yn eich cartref newydd.

**Pen-blwydd arbennig**

Penblwydd hapus arbennig i Andy Pritchard Stryd y Ffynnon yn 60 oed. Gobeithio dy fod wedi mwynhau'r dathlu Andy.

**Rhoddion i'r Llais**

| | |
|---|---|
| £10.00 | Er cof am Gwilym Williams, maes Caradog, oddi wrth y teulu. |
| £10.00 | Derek a Jean Hughes, Maes Bleddyn, Rachub. |
| £10.00 | Brenda Wyn Jones, Tregarth. |
| £20.00 | Er cof annwyl iawn am Gwyn Davies, a fuasai'n 60 oed ar 8 Rhagfyr. Oddi wrth mam a dad, Paul, Sioned a'r teulu, Angela a'r plant, Myfanwy a'r teulu a Deiniol a'r teulu. |
| £50.00 | Er cof am mam, Mrs. Dilys Lloyd Edwards, "Encil", Ffordd Coedmor, oddi wrth Gareth a Beryl. |
| £20.00 | Er cof annwyl am Brenda, 12 Ffordd Ffrydlas, a hunodd ar 30 Tachwedd 2012. Yn ein meddyliau bob amser. Selwyn, Alwena, Nerys, Medwyn a'r teulu i gyd. |

**Diolch yn fawr**

**Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen**
*(Dwy sesiwn o fwynhad pur!)*
Nos Wener, 18 Tachwedd 2022
am 6.00yh (Drysau ar agor am 5.45yh)
yn Neuadd Ogwen
*Seremoni'r Orsedd, Cystadlaethau'r Corau Unawdau Lleisiol ac Offerynnol a Chystadlaethau i Ysgolion Uwchradd*
Mynediad: £4.00 (Oedolion): £1.00 (Plant)
Sadwrn, 19 Tachwedd 2022
Dechrau am 10.00 yb
yn Ysgol Dyffryn Ogwen
*Gwledd o Gystadlaethau Cynradd: Canu, Llefaru, Offerynnol, Dawns, Celf a Chrefft*
Mynediad: £3.00 (Oedolion): £1.00 (Plant)

Sefydlwyd 1969
**m.hughes a'i fab**
CONTRACTWYR TOI
Bryn Myfyr, Allt Pen y Bryn, Bethesda
☎ 600633
☎ (symudol) 07702 583765
*Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio. Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant. Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am waith diguro.*

**CHRIS GRIFFITHS CYF**
Trwsio ffenestri upvc, drysau, cloeau, bachau, twll llythyrau ac unedau gwydr wedi chwythu



18 Carreg Felin
Llandegfan
Ynys Môn
LL59 5YB
☎ 01248 713 369 neu 07813 455653

BYSUS D. P. Owens RHIWLAS
01248 361044 a 07771 634195



BYSUS O 25 I 57 SEDD AR GAEL AR GYFER EICH HOLL ANGHENION TEITHIO - TRIPIAU, PRIODASAU, PARTÏON AC ATI.
Bysus Gwyrdd Rhiwlas
GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL A DIBYNADWY
SEFYDLWYD 1997 PERCHENNOG: DERFEL OWENS

**Gareth Williams**
Trefnydd Angladdau
Crud yr Awel
1 Ffordd Garneddwen
Bethesda
600763 neu 07708 008051
GWASANAETH DYDD A NOS

## Llandygái

**Iona Wyn Jones**, Dyma Fo, 16 Pentref, Llandygái, Bangor LL57 4HU (01248 354280) ionawynbangor@gmail.com

**Eglwys Sant Tegai, Llandygai**
**Ymweliad yr Archesgob**

Ar ddydd Sul, Hydref 23ain cafodd St Tegai y fraint o groesawu Archesgob Cymru, Y Parchedicaf Andrew John, i weinyddu Cymun Bendigaid mewn gwasanaeth unedig i Bro Ogwen. Cyfrannodd offeiriad Bro Ogwen Y Parch Ddr Gareth Lloyd a Pharch Sara Roberts at wasanaeth bendithiol gyda Geraint Gill wrth yr organ. Pregethodd yr Archesgob ar gyfrifoldeb yr eglwys i flaenoriaethu gofalu am anghenion y bregus a phawb sy'n cael eu heffeithio fwyaf gan y sefyllfa bresennol. Cyflwynodd awgrym yr esgobaeth "Anrheg Nadolig", sef i bob cynulleidfa baratoi 10 bocs o bethau ymolchi (sebon, brwsys dannedd, cynhyrchion misglwyf ac ati ac wedyn dewis dosbarthu'r rhain ein hunain neu drwy ein banciau bwyd lleol, lloches i fenywod neu adnodd cymunedol arall.

**Cyngerdd Cantabile**

Bydd Cor Merched Cantabile yn cynnal cyngerdd yn yr eglwys ar nos Sul Rhagfyr 11eg am 6 o'r gloch pan gawn gyfle fel cynulleidfa i ymuno yn y carolau. Dechrau da i ddathliadau'r Nadolig! Dewch yn llu, bydd croeso mawr i chi! Mae'r noson yn rhad ac am ddim ond gwahoddir cyfraniadau i Gronfa Atgyweiro Eglwys Sant Tegai Llandygai Rhan 2.

**Sul y Cofio**

Fel yr arfer talwyd teyrnged i Ddewrion Rhyfel yr ardal a'r genedl drwy seinio cloch ac aeth y gynulleidfa I Eglwys Santes Fair (Gelli, Tregarth) i gynnal gwasanaeth i anrhydeddu'r Colledigion.

**Nadolig St Tegai 2022**

Rhagfyr 18fed Gwasanaeth Naw Llith a Charol am 6 o'r gloch (y cyntaf ers 2019!)

Rhagfyr 24ain Noswyl y Nadolig Cymun Bendigaid am 11 o'r gloch yr hwyr



Gwasanaeth Unedig Bro Ogwen yn St Tegai. O'r chwith i'r dde: Y Parch Dr Gareth Lloyd, Archesgob Cymru, Y Parchedicaf Andrew John, Y Parch Sara Roberts

**Gwasanaethau Eglwys Sant Tegai mis Tachwedd**
**Ar y Sul**

Tachwedd 27ain (Sul 1af yr Adfent) Boreol Weddi 11yb

**Ar Ddydd Mercher**

Gwasanaeth 10.15, paned a sgwrs i ddilyn, ar yr ail a'r pedwerydd Mercher yn y mis (sef 9fed a'r 23ain). Os na ddymunwch fynychu'r gwasanaeth, mae dal croeso i chi ymuno â ni am y baned a sgwrs sy'n dilyn!

**Manylion Cyswllt**

Mae'r eglwys ar agor! Yn dilyn sefydliad y Parch Dr Gareth Lloyd fel ein Harweinydd Bro a Ficer Bro Ogwen, gofynnwn i chi gysylltu'n uniongyrchol ag ef ar 01248361521 neu gareth.lloyd@cantab.net ynglŷn ag unrhyw fater yn ymwneud â'r eglwys.






# Blas Lôn Las



Dechreuodd Blas Lôn Las fel cynllun blychau llysiau yn gwerthu'r cynnyrch a dyfwyd ar dir fferm Moelyci. Dros ddeng mlynedd yn ddiweddarach mae'r siop a'r caffi bellach wedi'u sefydlu ymhlith pobl leol, cerddwyr cŵn, beicwyr, teuluoedd a llawer o bobl eraill yn yr ardal leol fel man cyfarfod, siop luniaeth ac fel rhan o'r daith siopa wythnosol.

Ethos yr elusen yw cefnogi a hyrwyddo'r ardal leol gan sicrhau, lle bo modd, fod y cynnyrch a werthir wedi'i gynhyrchu o fewn 30 milltir. Mae Blas Lôn Las hefyd yn cydweithio gyda'r elusennau eraill ar y fferm sef Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru ac Asynnod Eryri i hyrwyddo eu hachosion unigol.

Rydym yn gweithio gyda llawer o fusnesau lleol – Menter Pandy, Tyfu Eryri, Ffabrig cwyr gwenyn, Laughing Bird, Fferm Fêl yr Wyddfa, Maggie's, Becws Môn, Teddy and Bears dog treats a Poblado Coffi i enwi ond rhai.

Rydym yn darparu gwasanaeth bocs llysiau 4 diwrnod yr wythnos yn ogystal â gwerthu drwy'r rhwydwaith bwyd agored ac mae'r caffi ar agor 7 diwrnod yr wythnos (dydd Llun-Sadwrn 10-5, dydd Sul 10-4) yn gwerthu coffi Poblado, te dail rhydd gan Seibiant, Conwy ac amrywiaeth o gacennau y mae rhai ohonynt yn dod o Tŷ Becws Caernarfon.

Mae gan adeilad y siop a'r caffi rai seddi dan do ond rydym wedi bod yn defnyddio'r twnnel polythen eang drws nesaf yn flaenorol ar gyfer seddi ychwanegol drwy gydol y flwyddyn. Yn anffodus y llynedd, cafodd gorchudd y twnnel polythen, a oedd yn dros 10 oed, ei ddifrodi y tu hwnt i'w atgyweirio gan wyntoedd cryfion gan ei wneud yn anniogel at ddefnydd cwsmeriaid. Yn anffodus, nid oeddem yn gallu sicrhau grantiau tuag at ei atgyweirio a chawsom ddyfynbris o £2000 ar gyfer deunyddiau yn unig.

Rydym wedi sefydlu cyfrif Just Giving er mwyn codi arian gyda tharged o £2000 ac wedi derbyn llawer o roddion caredig gan gwsmeriaid rheolaidd gyda phot casglu yn y siop.

Ar hyn o bryd rydym wedi codi ychydig dros ¼ o gost y deunyddiau, mae bellach angen codi rhagor o arian ar gyfer lloriau, seddi a byrddau oherwydd y difrod a gafwyd heb y to. Er mwyn bod o fudd pellach i'n cwsmeriaid yn y tymor hir rydym hefyd yn bwriadu ychwanegu ardal chwarae i blant o fewn y gofod.

Rydym yn ddiolchgar iawn am gefnogaeth ein cwsmeriaid yn enwedig gan ei fod yn galed ar bawb ar hyn o bryd a byddem yn gwerthfawrogi cefnogaeth barhaus er mwyn codi'r arian angenrheidiol a fydd yn gwella profiad y cwsmer ac yn sicrhau y gall Blas Lôn Las barhau i roi'r profiad gorau posibl i gwsmeriaid wrth siopa'n lleol.




# Marchnad Ogwen

Braf iawn oedd cael cynnal y Farchnad yn ôl yn ei chartref unwaith eto ym mis Hydref. Cafwyd Marchnad lwyddiannus iawn a phawb yn falch o weld eu gilydd – yn gwsmeriaid a Stondinwyr.

Mae Partneriaeth Ogwen yn mynd i drefnu i'w bws mini gludo cwsmeriaid i fynd a dŵad o'r Farchnad. £1.50 fydd pris tocyn - sy'n rhesymol iawn. Er mwyn trefnu taflen amser, bydd gofyn i gwsmeriaid gysylltu gyda Lliwen Morris, Partneriaeth Ogwen. I gysylltu - 01248 602131 a'r e-bost ydi lliwen@ogwen.org

Mae dwy Farchnad cyn y Nadolig - er mwyn i chi wneud eich siopa 'Dolig yn Pesda wrth gwrs!

Mae'r Farchnad Nos Tachwedd 23ain o 5 tan 8 o'r gloch a'r llall ar ail Sadwrn y mis fel arfer, sef Rhagfyr 10fed. o 9.30 – 1.00. Croeso cynnes i chi oll.

Mae gwybodaeth gyfredol am y Farchnad ar ein tudalen facebook. Mae'r Stondinwyr yn gallu dangos eu cynnyrch ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall sydd ganddynt i'w rannu erbyn y Farchnad nesaf. Mae gwybodaeth hefyd ar ein gwefan www.marchnadogwen.co.uk

Mae'r Farchnad yn llawn ar hyn o bryd, ond gellir mynd ar restr aros os ydych yn dymuno.

Mae Stondinwyr y Farchnad yn edrych 'mlaen i'ch croesawu.


MODURDY FFRYDLAS

Profion M.O.T.

Perchennog
A. Ll. Williams

Stryd Fawr, Bethesda
♦ PROFION M.O.T. ♦

GWASANAETH ♦ ATGYWEIRIO
♦TEIARS A BATRIS♦
GWASANAETH TORRI I LAWR
NEU DDAMWAIN

☎ 600723
Ffacs: 605068

# Rachub a Llanllechid

**Emlyn Williams**, Pont Llan, Llanllechid,
Bangor, LL57 3LE (07887624459)
henbarc13@gmail.com

Dymunwn gwellhad buan i Mr Alwyn Jones Lon Groes yn dilyn cyfnod yn Ysbyty Gwynedd.

Cydymdeimlwn yn fawr a theulu a chyfeillion Mr Godfrey Northam. Bu Mr Northam yn gweithio'n ddiwyd dros yr ardal a bydd colled fawr ar ei ôl.

Ychydig ddyddiau wedi ei ben blwydd yn 75 mlwydd oed bu farw Keith Thomas, 2, Tan y Garth, Rachub yn Ysbyty Gwynedd. Brodor o Goetmor oedd Keith a fu'n gweithio fel ffitar yn Chwarel y Penrhyn am nifer fawr o flynyddoedd. Bu'r gwasanaeth angladdol yng Nghapel Carmel dan ofal y Parch Dafydd Coetmor Williams. Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at Valerie, ei wraig, Jonathan a Paul ei ddau fab a'u gwragedd, Leanne a Sian, a'i frawd Andrew

Nid yw Jean a Derek, Maes Bleddyn yn anfon cardiau Nadolig eleni. Maent yn dymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb.






Clwb Hanes Rachub a Llanllechid

**'Gwaith Anna Pritchard'**

(a'r dylanwadau amaethyddol lleol)

Yng nghwmni'r artist ei hun
Nos Fercher, Tachwedd 30ain am 7 o'r gloch

YN Y CLWB CRICED

**Diolchgarwch am y Cynhaeaf**
Cawsom wasanaeth hwyliog a bendithiol yng nghwmni'r plant a'r ieuenctid. Roedd yr ieuenctid yn darllen Salmau, gweddïau ac yn canu 'Derbyn ein diolch ni'.

Roedd y plant i gyd yn canu emynau cyfarwydd ar ddiolchgarwch fel 'Cofia bob amser', 'Tu ôl i'r dorth mae'r blawd' ymhlith eitemau eraill. Diolch iddyn nhw am eu gwaith nhw a diolch i bawb a ddaeth i gefnogi'r plant. Mi gawsom ni gasgliad anrhydeddus o £165 a oedd i'w roi at waith Cymorth Cristnogol yng Ngogledd Affrica.



Rhai o'r plant a wnaeth gymryd rhan yn y gwasanaeth.

Er y glaw, bu sawl un yn cael hwyl yn Ffair Llan dydd Sadwrn, 29ain o Hydref.

**Capel Carmel**
Bu farw dau o blith ein haelodau ni yn ystod y mis hwn sef Mr Keith Thomas, Tan y Garth a Mr Godfrey Northam, Llwyn Bedw.

Daeth Keith a'i deulu yn aelodau atom ni ar ôl i achos Salem (Yr Eglwys Fethodistaidd) ddod i ben yn Rachub rai blynyddoedd yn ôl erbyn hyn. Bu Val a Keith, yn ogystal â'u meibion nhw, Paul a Jonathan, yn barod iawn bob amser i gefnogi gweithgareddau eglwys Carmel yn ariannol neu fel arall.

Roedd gweinidogaeth y plant yn agos iawn at eu calonnau nhw ac mae'r teulu yn dymuno rhoi'r arian a gafwyd er cof am Keith at waith plant yr ysgol Sul ac ieuenctid Clwb Dwylo Prysur.

Rydym ni, aelodau Carmel, yn ddiolchgar iawn i deulu Keith am eu haelioni nhw.

Anfonwn ein cydymdeimlad at Val, Paul a Siân, Jonathan a Leanne a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth.

Bu farw Mr Godfrey Northam yn ei gartref yn Llwyn Bedw brin flwyddyn ar ôl colli ei briod Jean y llynedd. Daeth Godfrey yn aelod atom ni pan benodwyd ef yn athro Mathemateg yn Ysgol Dyffryn Ogwen ar ddechrau'r 1970au.

Un o'r pethau cyntaf a wnaeth ef oedd dod yn un o'r athrawon yn Ysgol Sul Carmel ac mi fu'n eithriadol o ffyddlon a chefnogol, ynghyd â'i blant, Tegwen a Geraint. Mi gyflawnodd ei swydd yn yr ysgol Sul am hanner can mlynedd ac rydym ni'n diolch am ei deyrngarwch i ni.

Bu'n aelod ffyddlon, yn ddiacon hefyd, ac yn barod i ymgymryd â gwahanol ddyletswyddau yn yr eglwys, fel roedd, yn wir, mewn llawer maes ym mywyd ei gymdeithas a'i fro. Cydymdeimlwn gyda Tegwen, Geraint a'i deulu, a theulu Godfrey i gyd yn eu profedigaeth.

## Clwb Hanes Rachub a Llanllechid

Daeth criw da ynghyd yn y Clwb Criced yn ddiweddar i wrando ar yr anhygoel Mr. Wynne Roberts Braich Talog (Wynne Tanbwlch i bobol Rachub) yn siarad am rai o'i atgofion fel bachgen ifanc yn Rachub.

Er ei fod yn 95 oed, mae ganddo gof ardderchog! Soniodd am helyntion gyda photsiwrs a chiperiaid e.e. Llywelyn Bronydd Ucha - potsiwr arbennig o dda, un na fedrai neb ei ddal, ac am y ciper meddw a gafodd ddirwy am saethu cath!

Soniodd am ddwyster y bomio nosweithiol ar Rachub, am gyfnod, yn ystod yr Ail Ryfel Byd ac am y perfformiad cyntaf erioed o gerdd William Griffith Hen Barc i Ddefaid Wiliam Morgan yn y Cwt Barbar yn Lôn Groes.

Trist oedd gwrando ar hanes deg o blant yn colli eu tad mewn damwain yn y chwarel, a thrigolion yr ardal yn casglu arian ar gyfer yr angladd.

Yn wir llwyddwyd i godi mwy na chost yr angladd a phenderfynwyd prynu mangl i'r wraig weddw a'i phlant. Deuai pobol yr ardal â'u dillad i'w 'gwasgu' yn y mangl yn rheolaidd gan dalu ychydig geiniogau i'r teulu pob tro. Roedd y mangl wedi achub y teulu hwn, a phan dyfodd y plant, aeth rhai ohonynt i fyw i America - gan fynd â'r mangl gyda nhw!

Roedd gan Wynne hanesion rif y gwlith e.e. anturiaethau'r efail, Madam Chips a'i siop chips unigryw, llu o fulod yn cludo llechi i Aber Ogwen, hen gymeriadau'r ardal, siopau 'r pentref a hanes y llygoden fawr a roddwyd mewn jwg o gwrw yn nhafarn y 'Bull' yn Llan!

Diolch Wynne am noson werth chweil! Roedd y gynulleidfa wrth eu boddau!

Cofiwch am ein cyfarfod nesaf, Nos Fercher, Tachwedd 30ain yn y Clwb Criced am 7:00 pan fyddwn yn cael cyfle i glywed Anna Pritchard yr artist a'r dylunydd tecstiliau yn trafod ei gwaith, a sut y bu i draddodiadau amaethyddol yr ardal ddylanwadu'n gelfyddydol arni.

# Newyddion Partneriaeth Ogwen

**Bws Gwennol drydan**
Mae gan Partneriaeth Ogwen fws trydan cymunedol. Yn ystod yr hâf mae wedi bod yn rhedeg gwasanaeth cyhoeddus cyson rhwng Bethesda a Llyn Ogwen. Ym mis Tachwedd mi fydd y gwasanaeth yma yn dod i ben gan ryddhau'r bws i gael ei ddefnyddio yn gymunedol. Rydym eisiau ymchwilio i pa ddefnydd cyson gall y gymuned wneud o'r bws. Gall hyn fod yn dripiau un tro i grwpiau, cludiant rheolaidd i glybiau a grwpiau, neu dripiau cyson i lefydd penodol sydd yn anodd i'w cyrraedd.
Mae lle i 9 teithiwr ar y bws a mi fydd Partneriaeth Ogwen yn gallu darparu gyrrwr. Yn ogystal, mae gan Partneriaeth Ogwen gar cymunedol sydd yn gallu cario hyd at 6 teithiwr gyda Partneriaeth Ogwen yn darparu gyrrwr. Mae'r ddau gerbyd yn addas i gario teithwyr mewn cadair olwyn.
Ein bwriad yw cynnig gwasanaeth sydd yn atodol i wasnaethau sydd yn cael eu darparu eisoes.

Dyma ddolen i'r holiadur arlein, https://docs.google.com/forms/d/e/1FAIpQLSe9dt5t-CI-yDErik4YNeJ4l48kAWovtC3e8e2e3r-6IErpjA/viewform?usp=sf_link neu gall darllenwyr y Llais sy'n dymuno copi caled eu casglu o 26 neu 27 Stryd Fawr Llun - Gwener 09:00-17:00.




**Pecyn Arbed Ynni**
Er mwyn ceisio cynorthwyo rhywfaint ar deuluoedd yr ardal i arbed ynni mae tîm Dyffryn Gwyrdd wedi derbyn cefnogaeth ariannol gan Elusen Ogwen i ddarparu pecyn i'w rannu dros yr wythnosau nesaf. Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth gyda Prosiect SeroNet Gwynedd ac yn rhannu'r pecynnau, fydd yn cynnwys bylbiau ynni isel a thaflenni yn cynghori ar arbed ynni, i'r ysgolion lleol ac ym Marchnad Ogwen. Cysylltwch â ianto@ogwen.org 07495237680 am fwy o fanylion.
Pantri Pesda;

Mae'r gwaith pwysig o rannu bwyd yn parhau yn y Pantri gyda'r sesiynau'n dennu criw sylweddol o ddefnyddwyr. Mae ysgolion,cymdeithasau lleol ac unigolion wedi bod yn garedig iawn yn darparu nwyddau ar gyfer ein gwasanaeth parseli ac 'rydym yn hynod ddiolchgar am y gefnogaeth hynny. Dros yr wythnosau nesaf byddwn yn datblygu Hwb Cymunedol fel rhan o waith y Dyffryn Gwyrdd a'r bwriad yw darparu amrywiaeth o wasanaethau, cyngor ymarferol a chefnogaeth i'n cymuned. Mwy o fanylion i ddilyn.





Yn y llun – rhoddion i Pantri Pesda gan Ysgol Dyffryn Ogwen ac Ysgol Bodfeurig

**Beics Trydan**
Mae Beics Ogwen am lansio gwasanaeth tanysgrifiadau, lle bydd ein holl feiciau, trelars, offer, a gweithdy ar gael i'w defnyddio gan drigolion Dyffryn Ogwen.
Bydd eich cefnogaeth yn helpu cynaladwyedd y cynllun yn yr hir dymor. Gweler beicsogwen.co.uk am ragor o fanylion.
Ers i ni gychwyn ym mis Mai, yn ogystal â chynnal nifer o ddigwyddiadau, mae 68 o bobl wedi llogi neu fenthyg beiciau, ac mae o leiaf 5 ohonynt wedi mynd ymlaen i brynu beiciau trydan neu gael modur wedi'i osod ar eu beic. Mae ein beiciau trydan wedi cael eu reidio 2775 milltir Teithio Llesol, ac wedi arbed 1010Kg o allyriadau CO2. Mae tua 80 o blant wedi cael dysgu sgiliau atgyweirio beiciau sylfaenol. Yn ogystal, mae 5 o bobl sydd â hanes o ddigartrefedd wedi cael mynediad i feiciau gennym neu wedi cael cymorth i leihau costau teithio mewn ffordd amgylcheddol gyfeillgar ac mae 11 o bobl ag anafiadau neu anableddau wedi cael cyfleoedd i reidio beiciau hygyrch, gan weithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill.



**Yr Hen Bost**
Mae prosiect Yr Hen Bost yn datblygu. Ers i ni brynu'r adeilad ar y 31 o Fawrth 2022, mae Partneriaeth Ogwen wedi bod yn gweithio'n galed i ddatblygu'r adeilad pwysig hwn. Ein gweledigaeth yw gwella tirlun y Stryd Fawr trwy greu adeilad eiconig fydd yn adnodd i'n cymuned ac ymwelwyr i'r ardal. Rydym wedi comisiynu'r pensaer cadwriaethol Elinor Gray-Williams i arwain ar ddylunio'r adeilad hwn, sy'n gyfuniad o'r adeilad presennol ac estyniad tri llawr a mae dyluniadau cychwynnol Elinor wedi eu rhannu gyda'r gymuned mewn sesiwn ymgynghori cyhoeddus a gynhaliwyd yng nghanolfan Gorffwysfan ddiwedd Gorffennaf. Rydym hefyd wedi daparu pecyn gwybodaeth i holl fusnesau'r Stryd Fawr gyda chyfle i fusnesau lleol fynegi diddordeb mewn cael gofod yn yr adeilad newydd. Mae'r adborth hyd yma wedi bod yn galonogol gyda'r mwyafrif yn gweld yr adnodd yn gyfle i adfywio'r Stryd Fawr. Ers yr adroddiad diwethaf yn y Llais, mae Partneriaeth Ogwen wedi

- cynnal Sesiwn Agored i'r gymuned weld y cynlluniau drafft.
- wedi creu pecyn gwybodaeth i ddarpar unedwyr.
- cyllido gwaith pensaerniol, adroddiadau strwythurol, trydanol a mecanyddol ac adroddiad ecolegol.
- Cyflwyno ceisiadau grant tuag at gostau refeniw a chyfalaf y prosiect.
- Dechrau cydweithio gyda Amgueddfa Cymru a phartneriaid eraill i ddatblygu gofynion pensaerniol ac ymarferol gofodau arddangos.

Mae'r Bartneriaeth yn rhan o gais grant 'Llewyrch y Llechi' Cyngor Gwynedd i gronfa Ffyniant Bro Llywodraeth San Steffan a gobeithiwn glywed am ganlyniad y cais erbyn diwedd Tachwedd. Yn y cyfamser, mae Partneriaeth Ogwen wedi llwyddo gyda cheisiadau ariannol i Gronfa Adfywio Cymunedol y DU a byddwn yn cyflwyno ceisiadau i gronfa Economi Gylchol Llywodraeth Cymru o fewn y mis nesaf. Mae cynaladwyedd yn mynd i fod yn thema bwysig i'r adeilad hefyd gyda phwyslais ar systemau carbon isel, defnydd o ynni adnewyddadwy solar, ailddefnyddio a lleihau gwastraff yn ystod y cyfnod adeiladu ac hefyd gweithio efo Chwarel y Penrhyn i ddefnyddio gwastraff llechi yn greadigol yn adeiladwaith yr adeilad.



Arddangosfa a model 3D a ddangoswyd i'r cyhoedd mewn sesiwn agored am brosiect Yr Hen Bost ddiwedd Gorffennaf

# YSGOL LLANLLECHID

### Cydymdeimlo
Cydymdeimlwn yn ddwys gyda theulu'r diweddar Godfrey Northam. Roedd Mr Northam yn ffrind arbennig i Ysgol Llanllechid; yn ŵr bonheddig, oedd yn ddoeth ei sylwadau, ac yn gweld y gorau ym mhob sefyllfa. Roedd yn gymeriad diwyd tu hwnt ac roedd ei ddyddiadur wastad yn llawn dop! Anfonwn ein cofion cynhesaf at y teulu yn eu hiraeth o golli gŵr mor arbennig â bonheddig pob amser.

### Diolchgarwch
Cafwyd cyflwyniadau gan bob dosbarth yn neuadd yr ysgol ac roedd hi'n braf gweld cymaint o rieni/gwarcheidwaid wedi dod ynghyd i'n cefnogi. Diolch i bawb ac yn enwedig i'r disgyblion am eu holl ymdrechion. Diolch arbennig i Mrs Delyth Humphreys a Ms Rhiannon Williams am ei chyfeiliant medrus.

### Dymuniadau Gorau
Dymuniadau gorau, a diolch o galon i Anti Gillian am ei holl waith fel gofalwraig yn Ysgol Llanllechid, dros nifer o flynyddoedd. Does neb yn gallu dweud stori fel Gillian, a chawsom amser da iawn yn ei chwmni, a llawer o hwyl. Treuliwyd prynhawn difyr, cyn yr hanner tymor, yn ffarwelio, ac aeth pawb yn yr ysgol allan ar y buarth i ddawnsio a chael hwyl! Ni fu'r blynyddoedd diwethaf yn garedig i Gillian: bu farw Lliwen, ei merch, ym mis Ebrill 2020, a bu farw Dafydd Griffith, ei gŵr, yr haf yma. Ergydion caled iawn.

Wrth edrych i'r dyfodol, dymunwn ymddeoliad hir a hapus i Gillian, yng nghwmni ei theulu, a llu o ffrindiau. Hefyd, edrychwn ymalen at eich gweld yn ein Ffair Nadolig, a gynhelir am 5.30pm ar Ragfyr 2il, yn neuadd Ysgol Llanllechid, lle cawn flasu y twrci a`r stwffin cartre! Edrych ymlaen!



### Balchder Bro Ogwen
Diolch i ddosbarth Mrs Tegid, a fu'n ddiwyd yn casglu sbwriel o amgylch yr ardal gyda'n cyfeillion o'r tîm Balchder Bro. Aeth un grŵp i Faes Bleddyn, un ar hyd Lôn Bach Odro, un i Blas Ffrancon a'r llall i Gae Boncs! Casglwyd pedwar llond bag mawr! Da iawn chi blantos am weithredu fel hyn, ac am chwarae rhan lawn yn ein gwaith fel Ysgol Eco.




**Tîm Pêl-rwyd**
Da iawn chi aelodau o'n tîm pêl-rwyd am chwarae mor dda yn nhwrnamaint pêl-droed yr Urdd.

### Plas Ogwen
Aeth plant bach dosbarth Mrs Humphreys a Miss Elen Evans i Blas Ogwen, i ganu i`r henoed, yn ddiweddar. Cawsant groeso cynnes yno gan Mrs Sandra Williams, y rheolwraig, a`r staff i gyd. Gan ei bod yn dymor y diolchgawrch, aethpwyd ag afalau o`n perllan fel rhoddion i`n henoed, ac roeddent wrth eu boddau. Bore bach bendigedig oedd hwn, lle roedd y gwahanol genedlaethau yn cael cyfle i ddod at ei gilydd i fwynhau.

### Pêl-fasged Cadair Olwyn
Cafodd Blwyddyn 6 gyfle i roi eu hunain mewn esgidiau pobl eraill a datblygu empathi, wrth gael cyfle i chwarae pêl-droed cadair olwyn. Profiad gwerthfawr dros ben.

### Tecwyn y Tractor
Gan fod Tecwyn y Tractor yn ffefryn gan ddisgyblion Blwyddyn 1, penderfynwyd gwahodd Carys Eurwen draw i'r ysgol i gynnal gweithdy celf, ac ni chawsom ein siomi! Bu'n dysgu technegau arlunio i'n disgyblion, a chafwyd modd i fyw yn gwrando ar ei storiâu ffraeth! Diolch o galon a brysiwch yn ôl!

### Gweithdy Coed a Hadau
Gyda'r dail yn newid eu lliw, a'r hin yn dechrau oeri, penderfynwyd fod angen i ni ddysgu mwy am y coedydd o'n cwmpas; a phwy well i'n harwain gyda'r gwaith ond y dawnus Harri Pickering! Cafwyd gweithdai gwerth chweil, lle oedd rhaid i'r disgyblion gyfateb y ddeilen a'r hedyn, a dysgu enwau'r coed. Cymaint o enwau tlws, a phawb yn gwirioni gyda'r enw: Castanwydden y Meirch!

### Traeth Aberffraw
I draeth Aberffraw aeth dosbarth Mrs Rona Williams, i actio stori Branwen, a llwyddwyd i gludo pen Bendigeidfran ar y bws, oedd yn dipyn o gamp ynddo`i hun!! Cafwyd modd i fyw yn creu cychod o dywod, gwneud hwyliau, adeiladu pontydd, a chant a mil o bethau eraill, ar ddiwrnod hydrefol, braf ar lan y môr.

### Senedd Cymru
Cafwyd ymweliad addysgiadol arbennig o dda gan Mrs Delyth Williams, a ddaeth draw i'r ysgol at y disgyblion hynaf i drafod gwaith Senedd Cymru. Cafodd pob un gyfle i fynegi barn a phleidleisio. Diolch yn fawr!



### Manon Prysor: Cynllun y Carneddau
Bu'n fraint cael cydweithio gyda'r amryddawn Manon Prysor mewn sesiynau cwbl greadigol a dychmygus, a daeth yr Helgi Du, Llithrig y Wrach a'i chyfeillion yn fyw ar lethrau'r Carneddau. Bu dosbarth Ms Haf yn ymwneud â thoreth o sgiliau gan gynnwys: sgriptio, actio, paratoi gwisgoedd a phrops, ffilmio, ac ati, a pherfformiwyd y cyfan oll ar lethrau Moel Faban! Profiad anhygoel!

## Talybont

**Neville Hughes**, 14 Pant, Bethesda (600853)
**Barbara Jones**, 1 Dol Helyg, Talybont (353500)

Mae hi'n anodd credu bod mis Tachwedd arnom yn barod. Ers dechrau'r Hydref, mae'r siopau'n ferw gwyllt, yn methu penderfynu ai Calan Gaeaf yntau'r Nadolig ydi'r Ŵyl bwysicaf yn y Calendr. Diolch bod ni'n cael y dewis i anwybyddu pob sgerbwd a phry copyn.

Yn ôl pob golwg, mae Calendr rhai trigolion o Dalybont wedi bod yn llawn iawn yn ystod y mis diwethaf.

### Pen-blwydd arbennig



Ar Dachwedd 14 bydd Wynn Williams, Tyddyn Dicwm, yn dathlu ei benblwydd yn 90 oed. Llongyfarchiadau mawr Wynn ar gyrraedd y garreg filltir yma!

### Brysiwch wella

Anfonwn gofion cynnes iawn at Mrs. Anne Pritchard, Bryn Môr, Gatws, sydd yn yr ysbyty ar hyn o bryd, yn dilyn sbel go faith o afiechyd. Fydd Anne byth yn cwyno. Bydd hi'n cyfarch pawb â gwên groesawus, ac wrth i rhywun holi ei hynt, waeth sut mae'n teimlo ar y pryd, yr ateb yn ddi-eithriad bydd, "I'm fine, thank you". Brysia wella, Anne, mae dy ffrindiau i gyd yn meddwl amdanat, ac yn dymuno gwellhad llwyr a buan iti.

### Profedigaeth

Cydymdeimlwn yn ddwys â theulu 8 Cae Gwigin. Bu farw mam Arnold ar ddiwedd mis Medi, ychydig dros flwyddyn ar ôl iddo golli ei dad, Merfyn.

Roedd Mrs Rhona Williams yn wraig gymeradwy iawn gan bawb a'i hadnabu. Byddai wrth ei bodd yng nghwmni ei theulu a'i ffrindiau, a chafodd fyw bywyd llawn tan y diwedd. Roedd ei marwolaeth sydyn yn sioc i bawb ac yn golled enfawr i'w theulu. Meddyliwn amdanynt i gyd ar adeg drist iawn.

### Capel Bethlehem

*Oedfaon (am 2 o'r gloch)*
20 Tachwedd: Parchg. R. O. Jones.
27 Tachwedd: Y Gweinidog.
04 Rhagfyr: Parchg. Alan Spencer.
11 Rhagfyr: Y Gweinidog.
18 Rhagfyr: Oedfa Nadolig.
Croeso cynnes i bawb.

*Ffair Nadolig Flynyddol*
Edrychwn ymlaen at groesawu pawb i'n Ffair Nadolig eleni ar Nos Lun, 28 Tachwedd am 6.30.



### Priodas

Yn ôl yr addewid, cawsom lun bendigedig, gan y teulu Casey, o Anya a'i gŵr Imran ar achlysur eu priodas yn Nhrearddur ar Fedi'r 30ain. Cafwyd saib digon hir yn y tywydd erchyll iddynt lwyddo i dynnu llun ar lan y môr. Pob bendith i'r ddau ohonynt i'r dyfodol.




Carl (ar y dde) yn gwisgo ei Fedal Efydd

### Llongyfarchiadau

Fel y gwyddom eisoes, mae Mitchel, 80 Bro Emrys, yn baffiwr o fri.

Mae o wedi profi llwyddiant ym Manceinion, ac yn fwy diweddar byth, yn Nenmarc. Mae Mitchel yn perthyn i deulu prysur iawn, felly efo ychydig o lwc, cawn ei hanes yn llawn ar gyfer rhifyn y Nadolig, a llun ! Da iawn Mitchel, rydym i gyd yn falch ohonot.

Un arall o 'hogiau'r ardal', sydd wedi profi llwyddiant mawr wrth chwarae Pŵl, yw Carl Owen, mab Sheila a'r diweddar Barry, Millbank', Dolhelyg. Yr oedd yn un o dîm o saith a gipiodd y Fedal Efydd dros Gymru ym Mhencampwriaeth y Byd, a gynhaliwyd yn Ffrainc y mis diwethaf.

Ag ystyried bod deunaw o wledydd yn cystadlu yn erbyn ei gilydd, roedd camp y Cymry yn wych. Roedd y garfan yn cynnwys chwech o hogiau o ardaloedd y De, a Carl yn unig yn cynrychioli Gwynedd.

C.L. JONES
Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu
Timber & Builders' Merchants
Bethesda - Caernarfon - Mynytho - Llanrwst - Llangefni - Caergybi - Bae Cinmel
C.L. Jones yw eich masnachwyr adeiladu annibynnol lleol gydag amrywiaeth eang o ddeunyddiau adeiladu o safon gan gynnwys cyflenwadau plymio, addurno a thirlunio. Rydym yn agored i fasnachau a'r cyhoedd, ac yn cynnig danfoniad am ddim. Mae gennym arddangosfeydd ceginau ac ystafelloedd ymolchi ar gael yn ein canghennau yn Llangefni a Llanrwst.




Bethesda 01248 600 045
bethesda@cljonesltd.co.uk

# YSGOL DYFFRYN OGWEN

### Gweithdy GameMaker

Bu Gweithdy GameMaker Technocamps yn yr ysgol gyda disgyblion blwyddyn 10 yn ymarfer ac yn datblygu sgiliau creu gemau yn defnyddio'r feddalwedd GameMaker.  Roedd y disgyblion i gyd wedi mwynhau'n fawr!

### Ymweliad Ameer

Ddydd Gwener daeth y flogiwr a'r cyflwynydd Ameer Davies-Rana i Ysgol Dyffryn Ogwen er mwyn cyflwyno gwybodaeth am ymgyrch Miliwn o Siaradwyr erbyn 2050 Llywodraeth Cymru.

Yn gyntaf cawsom gyflwyniad gwych yn trafod gyrfa Ameer yn y cyfryngau a sut y llwyddodd i gyrraedd ei swydd bresennol fel cyflwynydd ar Hansh.

Mwynhaodd pawb o flwyddyn 8 y cyfle i gymryd rhan yn y cwis ar Gymru  er mwyn i Ameer ddod i'w hadnabod yn well.

Ar ôl hyn cawsom hwyl yn gwylio rhai o'r fideos doniol a greodd ar gyfer Hansh e.e. Ameer yn barnu gwahanol fwydydd.

I orffen, cafodd pob dosbarth sesiwn unigol ar sut i greu flog effeithiol cyn cloi gyda chyflwyniad i gystadleuaeth *flogio* ar wefan Stwnsh (S4C). Mae'r profiad wedi fy annog i a'm ffrindiau i ystyried dechrau flogio trwy'r Gymraeg.

Diolch am brynhawn yn llawn hwyl Ameer!

*gan Gwenno Beech bl.8*



### Un Nos Ola Leuad

Cawsom ni ddisgyblion bl10-13 y cyfle gan adran y Gymraeg i fynd i wylio Un Nos Ola Leuad gan Theatr Bara Caws yn Neuadd Ogwen ar y 18fed o Hydref.  Roedd addasiad Betsan Llwyd o'r ddrama yn wych a pherfformiadau'r cast yn gaboledig. Roeddem wir yn teimlo'n rhan o'r ddrama a buom ar daith emosiynol fythgofiadwy.

*gan Rhiannon Roberts bl.11*

### Rygbi Gogledd Cymru

Llongyfarchiadau i Osian Sherlock, blwyddyn 10 am gael ei ddewis i chwarae, ac am sgorio i RGC Gorllewin yn erbyn RGC Dwyrain. Buddugoliaeth i'r Gorllewin o 29-17.

### Gwobrwyo Ymdrech a Gwytnwch

Dyma rai o ddisgyblion Blwyddyn 7 ac 8 gafodd eu gwobrwyo ar ddiwedd hanner tymor hir yn yr ysgol. Rhoddwyd gwobrau iddynt oherwydd iddynt ddisgleirio a chael marciau llwyddiant cyson gan eu hathrawon yn ystod y tymor. Amdani yn yr hanner tymor nesaf rŵan!







### Elusen Cancr y Fron

Diolch i griw arbennig ein 6ed dosbarth am awgrymu a threfnu diwrnod ymwybyddiaeth Cancr y Fron. Bu i'r ysgol, godi cannoedd o bunnoedd at yr elusen tra hefyd yn mwynhau diwrnod di-wisg (y mwyafrif yn y lliw pinc) a hefyd gymryd rhan mewn Ras am Fywyd yn yr ysgol ddiwedd y dydd.

### Adran Addysg Gorfforol

Llongyfarchiadau i'r tîm pêl-droed dan 13 ar ennill gêm ail rownd cwpan Cymru yn erbyn Ysgol y Creuddyn.

Perfformiad gwych gan bawb efo Gruff Beech a Mattia D'Amora yn sgorio 2 gôl yr un. Y tîm wedi cychwyn yn gryf ac wedi cyrraedd hanner amser 2-0 ar y blaen.

Fe ddaeth y Creuddyn yn ôl iddi a mynd ar y blaen 3-2, ond sgoriodd Mattia 2 gôl yn y 5 munud olaf i gipio'r gêm.

Llongyfarchiadau hefyd i'r timau genethod bl.7 ac 8 ar eu buddugoliaeth o 2-1 yn erbyn Ysgol Tryfan a genethod bl. 9 a 10 ar eu buddugoliaeth o 5-3 mewn gêm Cwpan Cymru yn Ysgol Glan y Môr, Pwllheli.



### Llysgennad Coleg Cymraeg

Llongyfarchiadau i Cerys Elen ar gael ei dewis fel un o 21 llysgennad ar gyfer y Coleg Cymraeg. Bydd y llysgenhadon yn lledaenu'r neges o fanteision addysg prifysgol trwy gyfrwng y Gymraeg, yn ariannol ac wrth ddefnyddio'r iaith o ddydd i ddydd yn broffesiynol.



### Peintio Murluniau

Dymuna'r Adran Gymraeg ddiolch o galon i'r artist lleol Elen Williams am drawsnewid yr adran yn nhymor yn Haf. Cydweithiodd gyda chriw talentog o ddisgyblion i beintio murluniau sy'n dathlu'n diwylliant a'n Cymreictod. Mae'r adran wir werth ei gweld, diolch i ti Elen.

### Tylwyth

Ar nos Wener, y 14eg o Hydref cafodd criw'r chweched sy'n astudio'r Gymraeg gyfle arbennig i fynd i weld cynhyrchiad Theatr Genedlaethol Cymru a Theatr y Sherman o'r ddrama anhygoel a phwerus 'Tylwyth' gan Daf James yn y Galeri yng Nghaernarfon.

Roedd y ddrama yn adrodd hanes Aneurin a'i ymgais i ddianc rhag ei orffennol tywyll, ac mewn tro annisgwyl yn syrthio mewn cariad.

Pan mae Dan ac yntau'n penderfynu mabwysiadu, mae'r ddau ohonynt ar ben eu digon, ond wrth addasu i fywyd fel tad, a throi cefn ar ei orffennol gwyllt, mae ofnau duaf Aneurin yn dychwelyd.

Roedd perfformiad Simon Watts fel Aneurin yn gwbl ddirdynnol a gwefreiddiol. Cafwyd perfformiadau doniol, clyfar, tyner a phwerus gan y cast i gyd. Roedd yn ddrama werth ei gweld a phawb wedi mwynhau'n arw, diolch i adran y Gymraeg am brofiad gwerth chweil.

*gan Elin Lewis bl13*



## Gair neu ddau – John Pritchard

# ENW NEWYDD

Daeth yr awr, ac ar yr unfed ar hugain o Dachwedd bydd tîm pêl droed ein gwlad yn camu i'r maes yn rowndiau terfynol Cwpan y Byd. Dyma'r eildro'n unig i hynny ddigwydd. Ac wedi Sweden yn 1958 a Qatar yn 2022 mae'n bosib na welir Wales yn y rowndiau terfynol eto. Ac yn rhyfedd iawn, achos dathlu fydd hynny gan fod gobaith gwirioneddol y caiff Cymdeithas Bêl Droed Cymru y maen i'r wal trwy berswadio'r cyrff sy'n rheoli pêl droed ar draws y byd i arddel yr enw 'Cymru' yn hytrach na 'Wales'. Wrth yr enw Cymraeg y mae'r Gymdeithas eisoes yn cyfeirio at y tîm ac mae'n bwriadu dwyn perswâd ar bawb i'w fabwysiadu'n swyddogol. Ac felly pan fyddwn, gobeithio, wedi cyrraedd rowndiau terfynol Cwpan y Byd yn 2026, yr enw 'Cymru' fydd ar wefus pawb yng Ngogledd America. Dychmygwch y balchder o glywed pob gohebydd a sylwebydd, pob chwaraewr a rheolwr a'r miliynau o gefnogwyr yn sôn bob gafael am 'Gymru'.

Mae'n debyg mai mewn dirmyg y dechreuwyd galw disgyblion Iesu Grist yn 'Gristnogion' gyntaf. Yn Antiochia y digwyddodd hynny, a cheir yr hanes yn Llyfr yr Actau (11:26). Ond buan iawn y daeth y bobl hynny i arddel yr enw, a thros y canrifoedd daeth yn enw annwyl i bobl y Ffydd gan mai braint i ddilynwyr Crist yw bod ei enw ef arnynt. Yn nes ymlaen yn Llyfr yr Actau sonnir am Dduw yn gofalu 'am gael o blith y Cenhedloedd bobl yn dwyn ei enw'. Yng nghyfnod yr Hen Destament, cenedl Israel oedd y bobl hynny. Ond ers cyfnod y Testament Newydd y bobl sy'n credu yn yr Arglwydd Iesu Grist yw'r bobl sy'n 'dwyn ei enw'.

Ni all Cristnogion ymffrostio ynddyn nhw eu hunain. Ni allant ymffrostio yn eu gweithredoedd na'u crefydd na hyd yn oed yn eu ffydd. Mae eu hymffrost yn hytrach yn yr Arglwydd Iesu Grist. Maent yn arddel ei enw ef uwchlaw pob enw arall gan nad oes 'iachawdwriaeth yn neb arall, oblegid nid oes enw arall dan y nef, wedi ei roi i'r ddynolryw, y mae'n rhaid i ni gael ein hachub drwyddo' (Actau 4:12). Does ryfedd fod Paul yn dweud mai 'wrth enw Iesu y plygai pob glin yn y nef ac ar y ddaear a than y ddaear, ac y cyffesai pob tafod fod Iesu Grist yn Arglwydd, er gogoniant Duw Dad' (Philipiaid 2:10).

I lawer, mae enw teuluol yn achos ymffrost, yn arbennig os oes cysylltiadau o bwys i'r enw hwnnw. Gyda Christnogion yr oesoedd, gall pobl Crist heddiw ymffrostio yn yr enw sydd arnyn nhw: enw Crist ei hun. Ond ynghyd â'r ymffrost daw cyfrifoldeb. Nid peth dieithr yw gweld ambell un yn dod â chywilydd i enw anrhydeddus y teulu. Mae cyfrifoldeb ar bawb a elwir wrth enw Crist i fyw yn deilwng o'r enw hwnnw trwy ymdrechu, yn nerth Duw, i fod yn debyg i'r Arglwydd Iesu. Duw roddo ras i ddilynwyr Crist i wneud yr ymdrech honno bob dydd rhag iddyn nhw mewn unrhyw beth ddwyn cywilydd ar yr enw newydd a roddwyd arnyn nhw.





# Pwy Sy'n Cofio Ddoe?

©Dr J. Elwyn Hughes



Gan mor ddiddorol ydi hanes Capel Jerusalem, a saif yn gefndir urddasol i'r Cofebion Rhyfel ar ymyl y Lôn Bost, dyna'r adeilad dw i am sôn amdano y tro hwn.

Ar Hydref 7, 1842, yr agorwyd yr addoldy cyntaf yn yr ardal dan yr enw hwn a hynny ar dir a gafwyd ar les o ddeng mlynedd ar hugain gan yr Arglwydd Penrhyn. Meddai R.O. (cyhoeddwr, argraffydd ac awdur lleol): "Hen gors wlyb, anhygyrch, oedd y lle i ddechrau, a bu ugeiniau o aelodau yn gweithio o amgylch y lle am ddim i'w arloesi a'i sychu … Cynhwysai eisteddleoedd i oddeutu naw cant. Yr oedd y draul rhwng y Capel, tŷ capel, ystabl, a 'coach house' yn £3400 [a hynny tua £325,720 yn ein pres ni heddiw] Symudodd 195 o aelodau o Gapel y Carneddi i sefydlu'r achos." Y Gweinidog cyntaf oedd Morris Jones ('Yr Hen Broffwyd' fel y câi ei alw). Ym mis Mawrth 1853, rhoddwyd darlith yng Nghapel Jerusalem (am ddwy awr) gan y Parchedig John Phillips, Bangor, ar y testun, 'Dylanwad yr Ymerodraeth Brydeinig ar y Byd'. Mynediad 3 ceiniog (6 chwe cheiniog i'r galeri [cyfwerth â £2.87 heddiw]; roedd **800** yn bresennol!

Ar Orffennaf 7, 1872, cynhaliwyd cyfarfod i ddathlu Jiwbilî'r Capel ac yn ystod y 30 mlynedd er pan godwyd y Capel, roedd 3911 o bregethau wedi eu traddodi yno gan 463 o bregethwyr. A hynny, gyda llaw, pan oedd y nifer yn mynychu'r Ysgolion Sul ym Mhlwyfi Llanllechid a Llandygái (bob Sul) tua 6000 a chyfanswm yr addolwyr mewn 14 o addoldai yn yr ardal nos Sul, Rhagfyr 1, 1872, yn 4055.

Ym mis Mawrth, 1874, traddodwyd y bregeth olaf yn 'hen' Gapel Jerusalem, gan fod gwaith eisoes ar y gweill i godi'r adeilad presennol, gwaith a gynlluniwyd ac a arolygwyd gan Richard Davies, Pensaer o Fangor; yr adeiladydd oedd Owen Williams, Bangor. Mesurai'r capel newydd 24 llath wrth 20 llath, a lle i 900-950 eistedd … a sêt i'r cantorion o flaen y sêt fawr. Yn ôl R.O., "talwyd am yr adeilad a'r adeiladau cysylltiedig â'r lle, ynghyd â'r rhenti, trethi, adgywiriadau, y swm o £6605/17/11½ [sef tua £660,600 heddiw], a chasglwyd y swm i gyd trwy gasgliadau gwirfoddol … heb gymorth na darlith, 'concert' na 'tea party'. Bernir bod yr addoldy hwn yn un o'r rhai mwyaf, harddaf a gwerthfawrocaf yng Nghymru"

Ac mae gen inna' nifer o atgofion difyr, ac amrywiol, o'r cyfnod pan oeddwn yn blentyn yn yr Ysgol Sul yn ystafelloedd niferus y festrïoedd yng nghefn Capel Jerusalem. Miss Jennie Thomas (cydawdur *Llyfr Mawr y Plant* gyda J. O. Williams) oedd Arolygydd yr Ysgol Sul, gyda Mrs Owen, Pen-rhiw, ac ambell un arall yn athrawon ar lond y Festri fawr o hogia' a genod ar y llawr isaf yng nghefn y Capel. Byddai Miss Thomas yn dewis dau neu dri ohonom i gynnal gwasanaeth syml ar ddechrau pob cyfarfod (ledio emyn, cyflwyno darlleniad byr o'r Beibl a chloi gyda gweddi fer) a chofiaf ambell achlysur pan gollwyd naws grefyddol y 'gwasanaeth' gan biffian chwerthin y rhai a gymerai ran ym mhulpud bach y Festri a hynny'n achosi i bawb arall ymuno yn yr 'hwyl'.

Dyma un atgof arall, i gloi ar y pen hwn: roeddwn wedi mynd i'r Capel un nos Sul efo Mam, ac yn eistedd yn sêt y teulu ar ochr dde eithaf y Capel, yn edrych i lawr ar y pulpud (a'r pregethwr yn gorfod troi i'w chwith i allu ein gweld!) Ychydig a wyddwn fod y gŵr arbennig hwnnw yn adnabyddus am ei bregethau hirion (yn parhau am o leiaf awr yn aml!). Ond daeth hynny'n gwbl amlwg i mi y noson honno pan sylwais fod cloc y Capel yn dangos ei fod wedi bod wrthi'n traethu am ychydig dros awr a chwarter yn barod! Dyna pryd y penderfynais mai digon oedd digon! Dangosais fy nwrn caeedig i Mam a d'eud yn ddistaw bach: 'Y tro nesa' y troith o i edrach y ffor' yma, dw i'n mynd i godi fy nwrn arno fo!'. D'wedais hynny gyda chymaint o arddeliad nes y bu bron i Mam druan gael ffit binc yn y fan a'r lle! Wrth ryw lwc, o fewn eiliadau cyn i mi gyflawni fy mygythiad, syrthiodd y gair 'Amen' ar fy nghlustau - a dyna'r 'Amen' hyfrytaf a glywais erioed! Cafodd fy Mam - a'r pregethwr - osgoi embaras, a chefais inna' osgoi … gwaeth!

A dyma ni, 180 o flynyddoedd ar ôl agor Capel Jerusalem, mae'i ddrysau'n dal yn agored i gynnal gwasanaethau ar y Sul ac ar gyfer gwasanaethau arbennig eraill (yn ogystal â chyfarfodydd Cymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen). Ddechrau'r 1990au, pan gaewyd dau o gapeli'r Methodistiaid yn yr ardal, sef y Carneddi a'r Gerlan, ymunodd yr aelodau â Chapel Jerusalem a daeth Yr Eglwys Unedig i gymryd lle Capel Jerusalem. Yn y man, daeth yr achos i ben mewn addoldai eraill yn Nyffryn Ogwen: Bryn-teg, Peniel (Llanllechid), Penygroes (Tregarth) a Siloam, er enghraifft, ac ymunodd yr aelodau â'r Eglwys Unedig. Ond mae 'Capel Jerusalem' yn dal yn fyw ar leferydd y trigolion lleol ac mae hynny'n f'atgoffa fel y byddai ambell un o flaenoriaid y dyddiau a fu yn wirioneddol flin pan glywent rai'n sôn am 'Jeriw'. Mi fydden nhw'n siŵr o synnu a gwgu mwy fyth pe gwyddent fod yr arfer hwnnw'n dal i gael ei 'ffafrio' gan rai hyd y dydd heddiw!

Cewch wybodaeth gyfoes am Yr Eglwys Unedig a'r gweithgareddau a gynhelir yng Nghapel Jerusalem drwy ddarllen yr adroddiadau yn *Llais Ogwan* bob mis.


SAMARIAID
Gogledd Orllewin Cymru

Beth bynnag rydych chi'n ei wynebu
Rydyn ni yma i wrando

Llinell Gymraeg ddi-dâl
7-11pm bob nos

0808 164 0123

Gwefan: www.samariaidbangor.cymru



Cynghorwyr Sir Dyffryn Ogwen — Plaid Cymru



Tregarth a Mynydd Llandygai • cynghorydd.BecaRoberts@gwynedd.llyw.cymru • 07436 927237
Gerlan • cynghorydd.EinirWynWilliams@gwynedd.llyw.cymru • 07747 690456
Canol Bethesda • cynghorydd.RheinalltPuw@gwynedd.llyw.cymru • 07789 742092
Arllechwedd • cynghorydd.DafyddMeurig@gwynedd.llyw.cymru •07765 400140
Rachub • cynghorydd.PaulRowlinson@gwynedd.llyw.cymru • 07949 034967

## Glasinfryn a Chaerhun

**Mair Griffiths**, (352966)
mairpenybryn@gmail.com

**Cylch Glasinfryn**

Daeth nifer dda ynghyd i gyfarfod o'r Cylch ar 12 Hydref yn y Ganolfan. Trafodwyd y Cinio Nadolig a phenderfynnwyd eleni i gael pryd ysgafn amser cinio ym Mherthyn ym Methel yn hytrach na chael Cinio Nadolig traddodiadol.

Croesawodd Mair y Dr Mike Roberts o Ysgol Forwrol y Brifysgol ym Mhorthaethwy. Yr oedd Mike wedi bod yn gweithio yn yr Ysgol Forwrol ers tua pedwar deg o flynyddoedd ac yn yr amser yna wedi astudio am radd ac yna doethuriaeth. Teitl ei sgwrs oedd "Cymru Cuddiedig - defnyddio sonar i ddarganfod llongddrylliadau o dan y tonnau", a hynny ar long y Prince Madog.

Dangosodd drwy gyfrwng ffilmiau sut oeddynt yn pigo'i fyny lleoliadau y llongddrylliadau, dywedodd eu bod wedi darganfod tua 300 o amgylch Ynys Môn yn unig.

Diolchwyd i Mike am ei sgwrs hynod ddifyr ac addysgiadol gan Marian Bryfdir. Diolch i Margaret a Jean am ddarparu'r te a raffl.

Ar 9 Tachwedd croesawn Angharad Huws o Fethesda atom i sgwrsio ac arddangos ei gwaith llaw a chrefftau. Croeso cynnes iawn i chwi ymuno â ni yn y Ganolfan am 2yp

**Cofion**

Anfonwn ein cofion cynnes a gwellhad buan i Eirwen Orwig, Bryn Gwredog Uchaf sydd wedi bod am driniaethau yn yr ysbyty yn ddiweddar.

**Profedigaeth**

Bu farw Ifor Williams yng Nghartref Ceris Newydd, Bangor, gynt o Glenfor, Waen Wen, gŵr y diweddar Glenys Parry Williams a llystad i Mair a Gwyn. Bu'r angladd yn amlosgfa Bangor ar 19 Hydref. Pob cydymdeimlad i chwi fel teulu.

Cydymdeimlwn â Judy Howell, gwraig y diweddar Mike Howell, 29 Bro Infryn a fu farw ar 14 Medi yn Ysbyty Eryri Caernarfon.

**Y Ganolfan**

Cafwyd Noson Bingo ar 21 Hydref wedi seibiant o dros ddwy flynedd ers cyfnod y Covid.

Braf iawn oedd croesawu llond y Ganolfan i fwynhau a chymdeithasu unwaith eto. Diolch yn fawr iawn i bawb am bob cyfraniad tuag y noson. Gwnaed elw o £173 tuag at goffrau'r Ganolfan.

Cynhelir y Noson Bingo nesaf ar nos Wener, 25 Tachwedd am 7yh. Dewch yn llu am noson o hwyl!

# YSGOL BODFEURIG

**Dathlu Diwali**

Mae dosbarth Idwal a dosbarth Ogwen wedi dysgu llawer y mis yma am Diwali. Bu prysurdeb mawr yn dysgu am yr wyl, dysgu am India, patrymau Rangoli, lampau diya a hanes Rama a Sita. Uchafbwynt y dysgu oedd cael parti Diwali. Cafwyd ddysgu sut i ddawnsio daws Diwali arbennig, blasu bwydydd newydd, paentio dwylo a llawer o hwyl. Mae pawb wedi mwynhau dysgu am grefydd a gwlad newydd.

**Pen-blwydd Oriol Oren**

Bu llawer o ddathlu yn nosbarth Idwal y mis yma. Wrth iddynt barhau gyda'u thema 'hapusrwydd' cafodd llawer o blant y syniad fod parti pen-blwydd yn eu gwneud yn hapus! Felly dyma benderfynu cael parti pen-blwydd i Oriel Oren, un o deganau'r dosbarth. Ar ôl creu gwahoddiadau, cardiau pen-blwydd a dylunio cacennau, cafwyd parti gwerth chweil - pen-blwydd hapus Oriol Oren!

**Cyngor Eco**

Diolch o galon i'r cyngor Eco am drefnu stondin llysiau. Daeth y cynnyrch o ardd yr ysgol ac roedd y stondin yn uchafbwynt misoedd o waith caled yn paratoi'r ardd, plannu, gofalu am y planhigion ac yn olaf casglu. Bydd yr arian a gasglwyd yn siŵr o helpu tuag at gynnal a chadw'r ardd ar gyfer flwyddyn nesaf.

**Cyswllt gyda Tesco**

Os ewch chi i Tesco ym Mangor efallai y gwelwch waith arlunio gwych plant yr ysgol wedi ei arddangos yno. Diolch o galon iddynt am gyfrannu gwobrau tuag at ein cystadlaethau calan gaeaf. Mae'n braf gallu cydweithio gyda'r gymuned.

**Dysgu am natur o'n cwmpas**

Diolch i Harri o Bartneriaeth Ogwen am ddod i'r ysgol i ddysgu Dosbarth Ogwen am hadau coed sy'n tyfu yn yr ardal. Dechreuodd y gweithdy wrth i bawb geisio cyfateb dail a hadau coed a darganfod o ba goeden roeddent wedi dod. Wedyn cawsom fynd am dro i weld pa goed oedd yn tyfu yn y goedwig ger yr ysgol cyn chwilio am hadau ar gyfer eu plannu yn y dyfodol. Profiad diddorol iawn i'r plant – diolch Harri.



**Pantri Pesda**

Efallai eich bod wedi darllen yn y rhifyn diwethaf am ein taith o gwmpas Bethesda yn gweld y gwaith gwych mae Partneriaeth Ogwen yn ei wneud. Yn dilyn yr ymweliad roedd y Cyngor Ysgol wedi teimlo eu bod eisiau rhoi rhywbeth yn ôl i un o'r prosiectau sef Pantri Pesda. Casglodd yr ysgol fwyd ar gyfer y Pantri gan obeithio y bydd y bwyd yn helpu rhywun yn y dalgylch yn ystod yr amser heriol yma.

**Calan Gaeaf**

Dyna le dychrynllyd oedd yr ysgol ar y diwrnod olaf cyn hanner tymor. Daeth pawb i'r ysgol mewn gwisg calan gaeaf a chynhaliodd y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon gystadleuaeth cerfio pwmpen i gasglu arian tuag at yr ysgol. Llongyfarchiadau i bawb fu'n cymryd rhan yn yr hwyl.





# Côr y Penrhyn
## gyda Derfel Roberts



**Galwadau'n cynyddu a'r côr yn cynrychioli Cymru**
Mae'r galw am wasanaeth Côr y Penrhyn yn cynyddu'n gyson. Ar ôl bod yn perfformio yn Eglwysi Sant Pedr, Betws y Coed a Chapel Sant Ioan, Llandudno bu'r côr yn canu yng Nghastell Penrhyn ar gyfer cyfres o raglenni teledu gan Sianel 4 Saesneg sy'n paratoi i ddarlledu rhaglenni am Gymru, Lloegr, Yr Alban a Gogledd Iwerddon. Côr y Penrhyn sy'n cynrychioli Cymru.

Wedyn, bu'r côr yn canu yn Henllys, Biwmares i gynulleidfa o bell ac agos ac fe gafwyd croeso twymgalon gan y bobl yno.

**Rygbi rhyngwladol**
**Tachwedd 12**
Erbyn i chi darllen y nodiadau hyn bydd y gêm rygbi rhyngwladol rhwng Cymru â'r Ariannin yn Stadiwm y Mileniwm yng Nghaerdydd wedi bod. Bu'r côr yn cymryd rhan ar y maes cenedlaethol gyda chorau eraill a hynny am y trydydd tro. Does dim dwywaith na fu i aelodau'r côr a aeth ar y daith fwynhau'r profiad yn fawr. Mae nifer o wynebau newydd yn y côr erbyn hyn ac roedd y profiad hwn yn beth diddorol a chyffrous iddynt.

**Eisteddfod Dyffryn Ogwen**
**Tachwedd 18**
Byddwn yn cystadlu yn Eisteddfod Dyffryn Ogwen eto eleni. Mae cefnogaeth i'r ŵyl leol hon wedi bod yn rhan o raglen gyson y côr ers blynyddoedd lawer. Ein braint fel aelodau yw cynorthwyo i gynnal a chryfhau parhad y diwylliant a'r iaith Gymraeg yn ein bro. Hir y pery hynny.

**Aberteifi Tachwedd 19**
Yn union wedi cystadlu bydd y côr yn teithio'n gynnar fore drannoeth i lawr i Aberteifi i gynnal cyngerdd gyda chôr y dref honno. Mae amser maith wedi mynd heibio ers i ni berfformio yn Aberteifi o'r blaen ac mae cryn edrych ymlaen at gyfarfod pobl Ceredigion unwaith eto.

Yn ôl Tomos Williams, Hen Barc, "mae Aberteifi'n un o fy hoff leoedd a dwi'n cofio fy nhad yng nghyfraith, Mr Gwilym Evans, Llanllechid, yn gyrru'r bws i lawr yno y tro diwethaf".

Gobeithio y gallwn gynnwys adroddiad am y cyngerdd yn y rhifyn nesa.

**Henllys Tachwedd 24**
Daeth galw arnom i fynd yn ôl i Henllys eto ar y dyddiad uchod. Fel y nodwyd sawl gwaith o'r blaen, mae cyngherddau fel Henllys a Llandudno yn fara menyn i'r côr ac yn gymorth sylweddol i'r coffrau. Credai Idwal Jones o blith y bas cyntaf mai "perfformiadau fel rhain sy'n dod ag enw da yn ogystal â mwy o waith i'r côr."

Fel y gŵyr pawb mae costau cynnal a chadw unrhyw sefydliad yn cynyddu'n ddychrynllyd ac mae costau teithio'n unig yn mynd i fod yn eitem na ellir yn hawdd ei goresgyn. Wrth gwrs mae'r côr y gorfod dibynnu ar yr aelodau'n gwneud eu trefniadau teithio eu hunain yn Lleol ond mae trefnu taith i Gaerdydd ac Aberteifi'n golygu cael bws sydd wedi mynd yn erchyll o ddrud.

**Hosbis Dewi Sant Rhagfyr 2**
Ar ddydd Gwener Rhagfyr 2 am 7.30 yr hwyr, bydd y côr yn perfformio gyda Rhys Meirion a Band Arian Deiniolen yn y Gadeirlan ym Mangor i godi arian at Hosbis Dewi Sant. Fel yn y cyngherddau blaenorol, y cyflwynydd ar y noson fydd Dilwyn Morgan. Dyma'r trydydd tro i'r côr berfformio yn y digwyddiad hwn ac mae mynd mawr ar y tocynnau bob tro.

Fel y sylwodd Wyn Roberts, Cadeirydd Côr y Penrhyn, " Mae hi bob amser yn bleser pur cael perfformio at elusen fel Hosbis Dewi Sant yng nghwmni prif denor Cymru, Rhys Meirion." Ychwanegodd Wyn, "mae'r rhan fwyaf ohonom yn adnabod rhywun a gafodd ofal yn yr hosbis ac mae'r gwasanaeth a gynigir yno i bobl Môn, Gwynedd a Chonwy yn amhrisiadwy."

Pris y tocynnau ydy £10 i oedolion a £5 i blant dan 16 oed.

**Pontio gydag Ysgol Llanllechid**
**Rhagfyr 19**
Fe gofia rhai darllenwyr i'r côr gymryd rhan gyda phlant Ysgol Llanllechid yn eu cyngerdd Nadolig. Bu'r cyngerdd hwnnw'n llwyddiant mawr a does dim dwywaith na fydd galw mawr am docynnau eleni eto. Sicrhewch eich seddau chi rŵan.

## Cymeriadau'r Côr

**Cyfres am aelodau Côr y Penrhyn yw hon ac mae'r teitl ei hun yn awgrymu mwy nag 'aelod' yn unig. Y mis hwn rydyn ni'n troi'r llif oleuadau ar un o wir gymeriadau'r côr, Henryd Jones. Mae Henryd yn un o'r rhai mwyaf gwreiddiol a hoffus yn y côr ac yn gymeriad aml dalentog**.

**Enw Llawn?** Henryd Jones
**Oed?** Wedi pasio 70.
**Gwaith?** Jobio
**Byw?** Waunfawr.
**Un o le'n wreiddiol?** O Wrecsam (Upper Little Acton)

**Disgrifia dy hun** Aelod o Gôr y Penrhyn. Wedi ymuno â Hogia'r Bonc fel ffidlwr yn ddiweddar.
**Ers faint wyt ti'n aelod o'r côr?** Ers tua 1979
**Pam wnest ti ymuno â Chôr y Penrhyn?** Am fy mod yn medru canu ar y pryd.
**Pa gân yn rhaglen y côr ydy dy hoff gân?** Y gân olaf ymhob ymarfer.
**Dy hoff gantores?** Maggie Bell



**Wyt ti'n hoffi canu Pop?** Dwi'n gorfod gofyn i mi fy hun, a ydw i'n gwrando ar ganu pop oherwydd fy mod i'n anhapus, ynteu a ydw i'n anhapus am fy mod yn gwrando ar ganu pop.
**Pa atgofion sy gen ti am daith neu ymweliad efo'r côr?** Y bws yn mynd a'n gadael ni yn Llangefni ar ôl yr Eisteddfod Genedlaethol yno yn 1983.
**Diddordebau?** Canu i mi fy hun.
**Beth hoffet ti weld y côr yn wneud?** Dwi eisiau gweld y côr yn gwneud symudiadau gosgeiddig wrth ganu.

# Nyth y Gân



**Grug y Mynydd**

Mor hynod yw ei flodau ymddengys
Ar ei fregus frigau;
Mae'n grog ym min hen greigiau,
Garw fan ei fagwrfâu.

## Y Newid Mawr

Mae newidiadau mawr drwy'r byd
Yn dod o hyd i ni,
A dangos maent y pŵer mawr
Sydd nawr mewn haul a lli.

Daw sychdwr mawr hyd wyneb tir
Am hir yn bryder trwm,
A throi planhigion dôl a bryn
Yn felyn ac yn llwm.

Llifogydd hefyd ddaw'n ddi-baid,
A thai o laid a choed
Yn cael eu 'sgubo gan y lli
A'u torri yn ddi-oed.

I'r coed daw gelyn mawr yn llym,
A'i rym yw haul a gwynt,
A'u llosgi gânt yn llwyr yn awr
I'r llawr yn llawer cynt.

## Bedd

Ar y garreg mae'r geiriau, a'r rheini
Sy'n rhannu teimladau,
Yn asio â pherthnasau
Yn y cof fel nad yw'n cau.

## Llygoden

Daw allan o gul dyllau, hen allu
Un bwyllog ei chamau;
Yn y nos pan oedd yn iau
Y dysgodd yr hen dasgau.

**Dafydd Morris**


Marchnad Ogwen
Tachwedd 23ain
5pm - 8pm
Rhagfyr 10fed
9.30am - 1pm
Neuadd Ogwen
Bwydydd,
Crefftau, Lleol
www.marchnadogwen.co.uk
facebook instagram

Arbenigwr mewn lloriau coed caled
A.G.L.
Lloriau
Arbenigwr mewn gosod a selio lloriau coed caled, adnewyddu lloriau gwreiddiol a chyweirio lloriau sydd wedi eu difrodi.
Andrew G. Lomozik B.A.
Ffôn: 01248 602117 Symudol: 07835487909


CAFFI
COED Y BRENIN
1 Rhes Buddug, Bethesda
Ffôn: 01248 602550
Bwyd cartref blasus
(mewn awyrgylch cyfeillgar)
Cinio arbennig bob dydd Iau
Bwyd i'w gario allan
Gwasanaeth arlwyo ar gyfer partïon o bob math – plant, pen-blwydd ac ati
(yn y caffi neu mewn lle o'ch dewis chi)
Prisiau rhesymol
ORIAU AGOR
D. Mercher, Iau, Gwener 8.00 – 2.30
Gadewch i
Londri Coed y Brenin
wneud eich golchi

BARBWR OGWEN
Torri Gwalltiau
Dynion a Phlant gan Alison
Rhaid gwneud apwyntiad.
Ffoniwch: 07796 038824

J. TEMPLE MORRIS A'I FAB
Pob Math o Waliau Cerrig,
Ffensio, Tarmacio a Thirlunio.
Gwaith gyda peiriant tyrchu bach.
07770 900531
01248 600282
jtemplemorris@btinternet.com

Arfbais Douglas Arms
Cwrw Casgen - Gardd Gwrw
Oriau Agor
Sul, Llun a Mawrth – wedi cau
Mercher, Iau a Gwener 18.00 – 23.00
Sadwrn 15.30 – 23.00
01248 602537

# CROESAIR



**AR DRAWS**

1 Daliaf i gofio'r hen gartref er ei fod yn furddun bellach (6)
5 Planhigion tir gwlyb, fel cuddfan Moses (4)
9 Efallai os ewch chi 'rownd a rownd' y gwelwch eglwys y sant ar ynys fach ger ynys fwy (7)
10 Mae'n dioddef trais a gormes ei chymydog comiwnyddol i'r gogledd (6)
11 Cyfrol o emynau a salmau ar gyfer addoliad crefyddol (4,4)
12 Y pluog o'r ucheldir oer dry yn arfbais i'n Cyngor Sir (6)
15 Malu'n rhacs (6)
18 Gweithred hollol ddi-fudd a di-werth yw cario dŵr yma Ymadrodd (4,4)
20 Cartref amaethwr, fel Pantycelyn i W.W. (6)
22 Roeddynt yn tyfu yn ôl troed y ferch hardd meddai'r Mabinogion (7)
23 Rhaid bod yn amyneddgar gan fod pob un o'r rhain yn hir medd y ddihareb (4)
24 Yma, yn ôl efengyl Mathew, yr aeth y moch ar eu pennau i'r môr (6)

**I LAWR**

2 Chwilio am ateb i hanes a dirgelwch tras dy deulu (6)
3 Mynd 'mlaen ers tro i edrych pryd mae'r bws nesaf yn cychwyn (8)
4 Hanner cant ynghanol y pwll glo i'w droi'n wasg (5)
6 Y mae yn agor (4)
7 Dangos i ŵr godi cywilydd arno'i hun (6)
8 Ar ôl bod yn dawel, mae'r ferch sy'n 22 Ar Draws yn ffwndro i gael llestr i ddal uwd (6)
13 Dagra sy i lawer pan ddaw chwalu ar gytundeb priodasol (8)
14 Cwympo a syrthio (6)
16 Aed gan afael yn drefnus yn rhestr a threfn y pwyllgor (6)
17 Gofidiwr sy'n methu bodloni ar ddim (6)
19 Ar derfyn pwyllgor brysiog mae'n dueddol o newid ei feddwl o hyd (5)
21 Codi pac a newid aelwyd (4)

Atebion erbyn **2ail**, **Rhagfyr 2022** fan bellaf (ni ellir ystyried y rhai sy'n cyrraedd yn hwyrach) i '**Croesair Tachwedd**', Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda, Gwynedd LL57 3PD.

**ATEBION CROESAIR HYDREF 2022**

**AR DRAWS** 1 Mantais, 5 Rhaca, 8 Enwadau, 9 Iorwerth, 10 Uchelwyr, 12 Nos Sul, 15 Seler, 18 Chweochr, 20 Crybwyll, 23 Origami, 25 Anniddig, 26 Rhuwr, 27 Lled Effro

**I LAWR** 1 Marian, 2 Nawr, 3 Anghenus, 4 Saethu, 5 Rhywle, 6 Cydbwyso, 7 Buarth, 11 Chwech, 13 Sisyrnau, 14 Lety, 16 Rwsiaid, 17 Actau, 19 Reidio, 21 Wyddor, 22 Llogell, 24 Asaff

Yr unig wallau a gafwyd oedd 'rhacu' yn lle 'rhaca' (5 Ar Draws) ac 'annuddug' yn hytrach nag 'anniddig' (25 Ar Draws).

Gan y canlynol y cafwyd atebion cywir : Gwenda Roberts, Rhosmeirch; Rita Bullock, Gwen Evans, Gaynor Elis-Williams, Doris Shaw, Bethesda; M. A. Jones, Rachub, Llanllechid; Dulcie Roberts, Gareth Oliver, Elizabeth Buckley, Tregarth; Emrys Griffiths, Rhosgadfan; Iona Williams, Llanddulas; Gwyneth Jones, Glasinfryn; Gill King, Mynydd Llandygai; Meilyr Wyn, Gerlan; Dilys Parry, Rhiwlas

Mae'r wobr y mis yma yn mynd i **Dilys Parry**,1 Bryn Tirion, Rhiwlas, Bangor, Gwynedd LL57 4HA. Llongyfarchiadau calonnog i chi.


**SIOP OGWEN**

yn cynnig gwasanaeth


**CLIC A CHASGLU**

Llawer o Nwyddau Newydd gan Grefftwyr Newydd wedi cyrraedd y siop

Hefyd
Llu o gardiau cyfarch ar gyfer pob achlysur. Cysylltwch â'r siop ar yffôn **07394 905881**

neu E-bost siop@ogwen.org i drafod beth sydd ar gael ac i wneud trefniadau casglu a thalu

**CEFNOGWCH WASANAETH LLEOL**



# YSGOL ABERCASEG A PHEN-Y-BRYN



### Glan-llyn

Heidiodd llond bws o ddisgyblion blwyddyn 5 i wersyll yr Urdd Glan-llyn ddiwedd mis Medi i fwynhau'r holl weithgareddau sydd gan y gwersyll i'w gynnig.

Doedd dim eiliad i'w wastraffu wrth i'r plant ddringo a mentro ar y rhaffau uchel, nofio, bowlio deg, saethyddiaeth, a threulio oriau ar Lyn Tegid yn rhwyfo'n braf.

Yn ddi-os, cafwyd tridiau gwerth chweil,  ac yn sicr bydd plant Penybryn yn trysori'r atgofion melys hyn am flynyddoedd i ddod.





### Taith Melin Llynon

Bu plant Blwyddyn 1 a 2 yn ffodus iawn yn ddiweddar wrth iddynt fynd ar drip i Felin Llynon.  Cafwyd eistedd o amgylch y tân yn y tai crynion, dysgu am sut oedd y Celtiaid yn byw ac i orffen mynd am helfa gwerth chweil yn dod o hyd i'r holl anifeiliaid o amgylch y Felin.w

### Ymweliad â'r Llyfrgell

Darllen, darllen, a mwy o ddarllen- dyna yw ein nod ni ym Mhenybryn.

Felly pa ffordd well i annog hyn na threfnu ymweliad ar gyfer bob dosbarth a'n llyfrgell leol yma ym Methesda.

Cawsom groeso cynnes yno, a llawer o wybodaeth am be sydd gan y llyfrgell i'w gynnig i drigolion Dyffryn Ogwen. Diolch o galon am y croeso, ac edrychwn ymlaen at ddefnyddio'r gwasanaeth pwysig hwn yn y dyfodol agos.

### Wythnos 3P (Profiadau, Pwerau Dysgu a'r Pedwar Diben)

Dyma'r tro cyntaf erioed i ni ym Mhenybryn gynnal Wythnos 3P ac yn sicr nid dyma'r tro olaf.

Heuwyd yr hedyn cyntaf gan y Cyngor Ysgol nôl ym mis Medi pan ofynnwyd iddynt greu gweledigaeth newydd sbon i'r ysgol.

Y prif beth oedd yn bwysig i'r plant oedd eu bod yn cael ystod o brofiadau newydd ac unigryw a chael cyfleoedd i ddefnyddio'r pwerau dysgu (sef gweithio'n galed, canolbwyntio, dyfalbarhau, datrys problemau, ymdrechu, dychmygu, cymryd risg a gwella eu hunain)

Mae dau ben yn well nac un medda nhw, a dyna ddigwyddodd.

O ganlyniad aeth y Cyngor ysgol ati i drefnu cyfres o weithgareddau a oedd yn diwallu'r holl anghenion uchod- 'job' a hanner yn ddiamheuaeth.

Cawsom arbenigwyr i gynnal gweithdai gyda'r plant yn yr ysgol o 'Kick Boxing' i sesiynau Yoga a cherdd. Daeth yr Urdd atom i gynnal sesiynau ffitrwydd. Ymweliadau a'r Ganolfan Rhaffau Uchel yn Llanberis, Plas Menai a Paint Ball yn Neiniolen.

Hefyd cyfle i goginio smwthis a choginio prydau iachus yn yr ysgol a roddodd gyfleoedd i ddatblygu sgiliau rhifedd. Gwaith cartref Robin risg, i drio rhywbeth newydd a herio eu hunain. Cynhaliwyd sesiynau cymorth cyntaf i'r plant a llawer o weithgareddau meddylgarwch.

Bum ar daith gerdded noddedig yn yr ardal leol ar hyd Llon Las Ogwen, a'r uchafbwynt yn ddi-os oedd cael gwylio ffilm yn Neuadd Ogwen ar y bore Gwener olaf. Braf oedd cael cyflwyno anrheg i bob plentyn yn yr ysgol ar ddiwedd yr wythnos, sef llun ohonynt ar lechen fel atgof o'u dewrder a'u gwaith caled.

Do, fe gafodd y plant brofiadau a sgiliau newydd, unigryw, a fydd gyda hwy gydol eu hoes er mwyn eu datblygu'n unigolion iach a hyderus, mentrus a chreadigol, egwyddorol a gwybodus ac wrth gwrs yn uchelgeisiol a galluog. Hir oes i'r Wythnos 3P yn ein barn ni!!

### Parti'r Ysbrydion

Roedd hi'n ddiwrnod dychrynllyd yn Abercaseg Hydref y 27ain. Diolch i bawb am fynd i ymdrech arbennig ar gyfer ein disgo gwisg ffansi. Cafwyd gemau, gwobrau, bisgedi, diod, creision, dawnsio a llawer mwy



### Diwrnod Su'mae

Roedd yr ysgol yn fôr o goch, gwyn a gwyrdd ar Hydref y 14eg wrth i ni ddathlu Diwrnod Shwmae/ Su'mae.  Cafwyd disgo Cymraeg, lliwio, defnyddio a dysgu am fwy o arian Cymraeg, sinema Cymraeg yn o gystal â chreu posteri ar gyfer hyrwyddo'r Gymraeg.

## Bethesda

**Mary Jones**, maryeds@hotmail.co.uk (07443 047642)
**Joe Hughes**, Awel y Nant, Ffordd Ffrydlas, Bethesda (601902)

**Diolch**

Dymuna Gareth a Beryl a theulu'r diweddar Dilys Edwards 'Encil', Ffordd Coedmor, Bethesda ddiolch yn ddiffuant am bob arwydd o gydymdeimlad a amlygwyd tuag atynt yn eu profedigaeth lem o golli mam gariadus ac annwyl. Diolch am yr holl gardiau, galwadau ffôn ac ymweliadau a fu'n gysur mawr. Gwerthfawrogir y rhoddion hael a dderbyniwyd tuag at Gymdeithas y Deillion Gogledd Cymru er cof am mam. Hoffem ddiolch yn arbennig i staff Asiantaeth Gofal Cartref Plas Garnedd am eu gofal a'u caredigrwydd yn ystod ei misoedd olaf. Diolch i'r Parchedig John Pritchard am ei wasanaeth teimladwy, i'r organyddes, Mrs Helen Coetmor Williams, ac i Mary Jones am ddarllen y deyrnged. Diolch hefyd i'r Ymgymerwr Gareth Williams, a'i gydweithwyr am eu trefniadau trylwyr ac urddasol. Diolch o galon.

**Cofion**

Anfonwn ein cofion at Mrs Lilian Hughes, Erw Las sydd wedi treulio yn yr ysbyty. Yn anffodus wedi dod adref bu iddi hi a'i gwr Irfon ddal y cofid. Gobeithio bod y ddau ohonoch yn teimlo yn well erbyn hyn.

Dymunwn yn dda i Dafydd Morris, Garnedd Uchaf sydd wedi dod adref ar ôl cyfnod yn Ysbyty Gwynedd.

**Profedigaeth**

Ar Hydref 16eg farw Mrs Nancy Owen 8 Rhes William, Bethesda yn naw deg saith oed. Annwyl wraig i'r diweddar Dafydd John, yn fam arbennig i Liz, Jo a'r diweddar John Moriarty yn fam yng nghyfraith hoff i Myfanwy a'r diweddar Mike, ac yn nain addfwyn i Gareth a Davina, Kerry a Dave, David a Rhian, Johanna a Kieran ac yn hen nain i Cara, Ethan, Evie, Fflur a Guto. Cafwyd gwasanaeth angladdol yn Eglwys Crist Glanogwen ac yna ym mynwent yr eglwys Coetmor. Roedd Nance yn adnabyddus iawn yn yr ardal ac yn fawr ei chroeso i bawb. Bydd bwlch mawr ar ei hol i'w theulu a'i llu ffrindiau. Anfonwn ein cydymdeimlad at yr holl deulu yn eu profedigaeth.

**Priodas**

Llongyfarchiadau mawr i Siân Mererid a Gethin Sherrington, Henbarc, ar eu priodas yng Nghapel Carmel Rachub ar y diwrnod olaf o fis Hydref. Mae Siân yn ferch i Marian a Brynmor Jones, Ffordd Coedmor a Gethin yn fab i Rhian a Steve Sherrington, Tregarth. Pob dymuniad da i'r ddau ohonoch.

**Pen-blwydd Arbennig**

Llongyfarchiadau i Mrs. Betty Roberts, Stryd y Dŵr, ar ddathlu ei phenblwydd yn 90 mlwydd oed ar 10 Hydref.

**Gorffwysfan**

Ddydd Mercher, 26 Hydref, aeth yr aelodau ar wibdaith i Bwllheli a Phorthmadog. Cafwyd diwrnod da a phawb wedi mwynhau. Diolchwyd am y trefniadau gan y cadeirydd, Rhiannon Efans. Gwibdaith nesaf i Farchnad Bury, ddydd Mercher, 30 Tachwedd. Cychwyn ger y gofeb am 8.30yb. Cinio Nadolig eleni yn yr "Innings", Llandygai, ddydd Gwener, 2 Rhagfyr am 12.30.

**Marwolaethau**

**Bethan Jones**

Ar 11 Hydref, yn Ysbyty Gwynedd, bu farw Bethan Jones, Rhes Penrhyn, yn 46 mlwydd oed. Merch Huw a'r ddiweddar Terry, a llysferch Gwenno, chwaer i Siôn, Sioned a Rhian Wyn. Cynhaliwyd y gwasanaeth angladdol yn Amlosgfa Bangor ddydd Llun, 31 Hydref dan arweiniad Mrs. Nerys Griffiths. Cydymdeimlwn â chwi fel teulu i gyd.

**Eric Bradshaw**

Yn Ysbyty Gwynedd ar 15 Hydref, bu farw Eric Bradshaw. Priod annwyl Norma, tad Lynn a Karen, a thaid a hen daid annwyl. Cynhaliwyd angladd hollol breifat yn Amlosgfa Bangor. Anfonwn ein cydymdeimlad at y teulu oll.

**Nancy Owen**

Ar 16 Hydref, yn ei chartref yn Rhes William, bu farw Mrs Nancy Owen (Nance) yn 97 mlwydd oed. Priod y diweddar Dafydd John Owen a mam annwyl Liz, Jo, a'r diweddar John Moriarty. Mam yng nghyfraith Myfanwy a'r diweddar Mike, a nain hoffus i Gareth, Davia, Kerry, Dave, Johanna, Kieran, David a Rhian. Roedd hefyd yn hen nain i Cara, Ethan, Evie, Fflur a Guto.

Cynhaliwyd ei hangladd ar fore Iau, 27 Hydref, yn Eglwys Crist Glanogwen, ble bu'n aelod ffyddlon, ac yna ym mynwent Eglwys Coetmor.

**Ysbyty**

Cofion cynnes a gwellhad buan i'r rhai a fu yn yr ysbyty yn ddiweddar. Dyma'r rhai y clywodd y Llais amdanynt:- Rita Evans, Erw Las; Joan Grifiths, Glanffrydlas ac Eurwen Morris, ffordd Abercaseg.

## DIFYRION DIGIDOL

**Deian ap Rhisiart**

Rwyf wedi son o'r blaen am adnoddau hanes i gynorthwyo hel ymchwil hanes lleol a chenedlaethol, ond y tro hwn rwyf am ganolbwyntio yn benodol ar ddau adnodd sy'n ddefnyddiol tu hwnt i'r ditectif hanes yn ein mysg er mwyn archwilio eu milltir sgwâr.

Mae adnoddau digidol i gynorthwyo a chanfod olion hanesyddol o fewn eich cornel o Gymru yn hynod o werthfawr a difyr ac yn gymorth i rywun ddod i ddeall a dysgu mwy, nid yn unig am ein stori hanesyddol ond ran ein stori gymdeithasegol a daearyddol gan ddatgelu cyfrinachau a pherlau o'r oes o'r blaen. O'r cyfnod neolithig ymlaen i'r oes haearn, o'r Rhufeiniaid i'r canol oesoedd, mae'r adnoddau hyn yn agor cil y drws ar ein gorffennol.

Mae'r wefan Coflein wedi'i seilio ar y gwaith amhrisiadwy a wnaed dros y degawdau gydag arolygon tir yn cofrestru olion henebion ynghyd â gwaith cloddio a darganfyddiadau trwy gyfrolau'r Comisiwn Brenhinol yn ystod yr ugeinfed ganrif.

Os ewch chi i'r wefan https://coflein.gov.uk/cy/, mae yna ddewisiadau gwahanol o ffyrdd i ymchwilio ond os ydych yn awyddus i bori dros fap, cliciwch ar 'Map' yn y ddewislen ac mae'r ddolen hon yn agor map o Gymru, wedi'i rannu yn ddarnau, chwyddwch eich ardal chi trwy glicio ar y man dan sylw, yna, mae map mwy manwl yn agor, gyda swigod yn nodi'r lleoliadau sy'n cynnwys olion sydd wedi eu cofrestru.

O'r cyfnod neolithig, er enghraifft, ceir adroddiad o safle adnabyddus bedd addurniedig cynteddog ar ffurf croes, Bryn Celli Ddu ger Llanddaniel Fab yn Ynys Môn. https://coflein.gov.uk/cy/safle/93827?term=bryn%20celli%20ddu

Safle sydd wedi bod yn newyddion yn ddiweddar yw Llys Sycharth, cartref ein harwr cenedlaethol Owain Glyn Dŵr sydd yn Llansilyn rhwng Llanfyllin a Chroesoswallt. "Na syched fyth yn Sycharth!" Ys dywed Iolo Goch ....Dyma sydd gan y safle i'w ddweud am Lys Sycharth: https://coflein.gov.uk/cy/safle/306999/

Mae'r wefan yn rhoi manylion o'r safle gyda disgrifiad llawn o natur yr olion, ac yn dangos union leoliad y safle ar y map yn cynnwys y cyfeirnod grid. Fe geir hefyd droednodiadau yn nodi ffynonellau pellach yng nghyfnodolyn Archaeologia Cambrensis. Ceir archifau o'r safle ynghyd â delweddau, archif a darluniau sy'n gysylltiedig gyda'r safle hefyd.

Un adnodd arall angenrheidiol wrth chwilota eich ardal yw gwefan *Archwilio* sy'n brosiect ar y cyd rhwng ymddiriedolaethau archeolegol Cymru ( <https://www.archwilio.org.uk/arch/>) Yr hyn sy'n dda am y wefan hon yw y gellir rhannu'r tirwedd henebol i gyfnodau gwahanol megis cyfnodau Neolithig, Efydd, Yr Oes Haearn, Y Rhufeiniaid ac yn y blaen. Mae'n ddifyr ticio'r bocs Rhufeinig er mwyn darganfod pa ddarnau o Sarn Helen, sef y briff-ffordd Rufeinig rhwng y de a'r gogledd sydd wedi cael eu canfod. Yr wyf yn wreiddiol o Bennantlliw ger Lanuwchllyn ac mi es ati i chwilio'r wefan yn ceisio dilyn cwrs y ffordd Rufeinig sy'n cysylltu Caergai yn Llanuwchllyn gyda Thomen y Mur yn Nhrawsfynydd. Mi roedd digon o ddeunydd archwilio i'r ditectif hanes!

Yn amlwg, mae'r adnoddau hyn yn amhrisiadwy er mwyn tyrchu i hanes tirweddol ein gorffennol yn lleol ac yn genedlaethol.

# Yr Eglwys Unedig

**Yr Ysgol Sul**
Cynhaliwyd Gwasanaeth Diolchgarwch fore Sul, Hydref 23, gyda phlant yr Ysgol Sul yn cymryd y rhan agoriadol, o dan ofal yr Arolygydd, Menna Wyn. Diolch i Eluned Edwards, Elin Edwards a Rhys Jones am eu rhan hwythau yn paratoi'r plant, ac wrth gwrs i'r plant am eu cyfraniadau. Yn dilyn y rhan agoriadol, cafwyd neges fendithiol gan Mr Richard Morris Jones. Casglwyd nifer fawr o eitemau ar gyfer eu trosglwyddo i'r Banc Bwyd – diolch o galon i bawb a gyfrannodd.

**Angladd**
Fore Iau, Hydref 13, cynhaliwyd arwyl y diweddar Mr William Hughes, o dan arweiniad Mrs Nerys Griffiths, a chyda Mrs Menai Williams wrth yr organ. Daeth tyrfa deilwng iawn i ffarwelio â Mr Hughes, ac yn deyrnged iddo fel garddwr arbennig, addurnwyd y Capel yn hardd dros ben gyda blodau o liwiau'r hydref. Bu gwasanaeth preifat ymhellach yn Amlosgfa Bangor.

**Cofion**
Yn ôl ein harfer, anfonwn ein cofion cynhesaf at yr aelodau hynny sydd mewn ysbytai, cartrefi gofal, neu'n gaeth i'w cartrefi. Ar hyn o bryd mae Mrs Eurwen Morris yn yr ysbyty, ac mae Mrs Elina Owen, yn dilyn cyfnod mewn ysbyty, yn disgwyl cael dod adref. Dymunwn bob bendith a chysur iddynt oll, pa le bynnag y maent.

**Blaenor newydd**
Nos Fawrth, Hydref 11, aeth amryw ohonom i Gapel Croesywaun, Waenfawr, i gefnogi Mrs Carol Dewi Jones ar yr achlysur o gael ei hordeinio'n flaenor. Pleser o'r mwyaf yw cael croesawu Carol atom i rannu'r gwaith – ac mae hi eisoes wedi ymroi i gyfrannu at ddyletswyddau'r swydd. Pob bendith, Carol.

**Gweinidog newydd**
Hyfryd yw gallu cyhoeddi y bydd Mrs Nerys Griffiths yn cael ei hordeinio'n Weinidog arnom, fel rhan o'r ofalaeth newydd sydd yn cynnwys Jerusalem; Cysegr, Bethel; Caeathro; a Chapel y Rhos, Llanrug. Bydd Mrs Griffiths yn dechrau ar ei swydd ym mis Ionawr, ac edrychwn ymlaen at ei chroesawu'n ffurfiol atom. Cynhelir y Gwasanaeth ordeinio fel rhan o Gyfarfod Cymdeithasfa'r Gogledd yng Nghapel y Groes, Wrecsam, nos Fawrth, Tachwedd 8, am 7 o'r gloch, a gobeithiwn y bydd cynrychiolaeth deilwng yn gallu bod yn bresennol yno.

**Cyhoeddiadau'r Sul**
Tachwedd 20: Y Parchedig Nerys Griffiths (10 a 5)
Tachwedd 27: Mr Dennis Davies (10)
Rhagfyr 4: Mr Gwilym Williams (10)
Rhagfyr 11: Gwasanaeth Nadolig y Plant (10.30)
Rhagfyr 18: Gwasanaeth Nadolig Cymunedol (7.p.m.)
Rhagfyr 25: Gwasanaeth Cymun o dan ofal Y Parchedig RO Jones (9.30)

**Rhaghysbysiad**
Gair i'ch atgoffa y byddwn yn cynnal Gwasanaeth Nadolig Cymunedol yn y Capel am 7 o'r gloch, nos Sul, Rhagfyr 18, pryd y bydd Corau'r Penrhyn ac Ysgol Dyffryn Ogwen yn cymryd rhan, yn ogystal ag unawdwyr a llefarwyr. Gwneir casgliad at achos da. Wedi cyfnod hir o fethu â chynnal y Gwasanaeth hwn oherwydd y pandemig, edrychwn ymlaen at gael eich croesawu unwaith eto i ddathlu rhyfeddod y Geni gyda'n gilydd. Dyma gerdd hyfryd gan Elin Angharad Davies:

'Da ni angen angylion eleni,
A llewyrch y sêr fwy na 'rioed,
'Da ni wir angen dos o newyddion da
I ddod â ni'n ôl at ein coed.

'Da ni angen Gwaredwr a gobaith
A chyngor y doethion o hyd,
Bugeiliaid i'n gwarchod a'n cadw yn saff
Rhag y gofid sy'n llethu ein byd.

'Da ni angen pob nerth a haelioni
I gario a chynnal ein gilydd,
'Da ni angen llond côl o ewyllys da
Dros y 'Dolig a'r Flwyddyn Newydd.

'Da ni angen y garol yn gysur,
A'r cariad fu yno o'r crud
I dystio mai anrheg mwy gwerthfawr nag aur
Yw pob angel sy'n llenwi ein byd.

# Eglwys Crist, Glanogwen

**Bore Coffi Hydref 29**
Diolch i bawb a gefnogodd mewn unrhyw ffordd, trwy roddion, help a dod am baned ar fore ddigon glawog.

Braf yw nodi elw o £270 at gostau cynnal yr eglwys.

**Bingo Nadolig**
Y gweithgaredd nesaf at Apel Glanogwen fydd noson Bingo yn y Clwb Criced a Bowlio nos Iau, Rhagfyr 1af i gychwyn am 7. Cyfle i bawb wisgo siwmperi Nadolig i godi gwên – dewch yn llu!

Enillwyr Clwb Cant mis Hydref:

£40: – 82 – Delyth Davies
£20: – 13 – Ann Griffiths
£15: - 57 – Helen Phillips

Llongyfarchiadau i'r enillwyr! Tynnir y gwobrau lwcus yng Ngwesty'r Douglas ar y nos Wener olaf o bob mis am 7.30; croeso cynnes i bawb.

Mae'n gychwyn ail flwyddyn y Clwb Cant, a diolch i bawb sydd wedi cadw'r aelodaeth i fynd. Mae nifer bychan wedi dymuno dal ati, ond heb dalu eto – siwr mai diffyg cofio sy'n gyfrifol am hynny. Tydi hi ddim rhy hwyr – cysylltwch â Barbara neu ar llinoso@yahoo.com cyn gynted a phosib er mwyn cael cyfle i ennill a chodi arian i atgyweirio un o adeiladau harddaf y dyffryn. Hwn yw'r elw mwyaf o ddigon i'r Apêl.

**Amlenni Rhodd**
Diolch i bawb am eu cyfraniadau cyson trwy'r amlenni wythnosol – rhain sy'n talu costau'r eglwys. Cofiwch hefyd gysylltu os oes gennych amlenni ac yn methu mynychu'r eglwys ar hyn o bryd, gallwn alw amdanynt.

Mae nifer o'n haelodau yn wael neu wedi cael triniaeth yn yr ysbyty'n ddiweddar; dymunwn wellhad buan iddynt; cofiwch roi gwybodaeth os gwyddoch am unrhyw un sydd angen gweddi, ymweliad, neu Gymun yn eu cartref.

**Profedigaeth**
Yn ddiweddar gwelwyd colli un o ffyddloniaid annwyl Eglwys Glanogwen, sef Mrs Nans Owen, Rhes Williams, a daeth cynulleidfa fawr i'w hangladd yn yr eglwys ar Hydref 27. Cydymdeimlwn yn ddwys a'r merched, Johanna a Liz, a'r teulu cyfan yn eu profedigaeth.

**Gwasanaethau**
Pob Bore Sul am 11.00 y bore – Cymun Bendigaid
Pob Bore Mercher am 10.30 y bore – Cymun Bendigaid neu Foreol Weddi.
Croeso cynnes fel arfer i bawb.

**Manylion Cyswllt**
Gellir cysylltu a'r ficer, y Parch. Ddoctor Gareth Lloyd, ar 07847 125 225 ynglyn ag unrhyw fater yn ymwneud â'r eglwys, gan gynnwys trefnu priodas, angladd neu fedydd.

Cofiwch bod Barbara (600530) a Glenys (600371) ar ben arall y ffon os am gael sgwrs.

Contractwyr Trydanol
**Jones & Whitehead** Cyf

Swyddfa Gofrestredig
Penrala, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU

Ffôn: 01248 601257
Ffacs: 01248 601982

E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk

MODURON PANDY Cyf.

MOT Diesel a Chatalydd
Atgyweirio MOT
Gwasanaethu Cerbydau
Cydbwyso Teiars
Batris
Tracio

01248 600619

moduronpandy@yahoo.com
www.moduronpandymotors.co.uk

Tregarth, Bangor,
Gwynedd LL57 4AY

UNIPART CAR CARE CENTRE

## Rhiwlas

**Iona Jones**, 17 Bro Rhiwen, Rhiwlas
ionarhiwen@hotmail.co.uk (01248 355336)

**Cydymdeimlo**
Yn dawel yng Nghartref nyrsio Cerrig yr Afon a 16, Bro Rhiwen gynt bu farw Mai Williams yn 83 mlwydd oed.

Roedd yn wreiddiol o Ddinorwig a bu hi a'i phriod, y diweddar Bryngwyn yn byw am gyfnod yn Ffridd uchaf, Deiniolen ac yna yn 1961 symud i Bro Rhiwen.

Roedd yn fam a mam yng nghyfraith gariadus i Eirwen Alwyn a Gwynfryn a Sharon ac yn nain falch i Sioned, Nia, Catrin a Sian a hen nain addfwyn Ela, Lea, Awel, Jac, Anna, Owi, Mabli Nanw a Myfi a chwaer yng nghyfraith a modryb hoffus.

Bu angladd cyhoeddus ar lan y beddd ym Mynwent Pentir a derbynwyd rhoddion yn ddiolchgar tuag at Eglwys Pentir ac at gronfa prynu offer i Gartref Cerrig yr Afon.

**Gair o ddiolch**
Dymuna teulu'r ddiweddar Mai Williams, gynt o Bro Rhiwen, Rhiwlas, ddiolch o galon i bawb am eu cydymdeimlad a'r caredigrwydd a ddangoswyd iddynt yn eu colled. Diolch i Meinir Griffith, Penisarwaun am ei gwasanaeth gofalgar a thrylwyr a hefyd i'r Parch Dr. Gareth Lloyd.

**Dymuno'n dda**
Mae Mrs Myra Jones, Bron y Waun yn yr Ysbyty yn dilyn iddi syrthio gartref. Anfonwn ein cofion ati. Bu Mrs Eunice Jones, Caeau Gleision hefyd yn yr Ysbyty ac yn teimlo'n dipyn gwell wedi dod adref.

Cofion at eraill sydd heb fod yn dda yn ystod y cyfnod yma.

# Calendr Llais Ogwan 2023

Mae'n bleser gennym gyhoeddi bod Calendr Llais Ogwan 2023 wedi ei gyhoeddi ac ar gael i'w brynu yn y siopau a gan eich gwerthwyr lleol. Mae'r Calendr yn cynnwys lluniau lliw hardd o olygfeydd o amgylch ardal Dyffryn Ogwen gan gyfranwyr lleol unwaith eto eleni.

Hoffem ddiolch eto eleni am gymorth gan Glwb Camera Dyffryn Ogwen i ddenu a dewis y lluniau ar gyfer y Calendr a diolchwn hefyd i Richard Alwyn Jones a Gwasg Ffrancon am eu gwaith wrth gysodi ac argraffu'r Calendr.

Bydd y Calendr yn cael ei werthu trwy'r siopau yn bennaf, ond, os oes rhywun yn fodlon gwerthu cyflenwad, mae croeso iddynt gysylltu gyda Mr Walter Williams gan mai ef sy'n gyfrifol am ddosbarthu a gwerthu'r Calendr.

Gallwch gysylltu gyda Walter ar 01248 601167 neu trwy e-bost: waltermenai@yahoo.co.uk.

Bydd y Calendr ar werth am £4.50 eleni yn y siopau canlynol:

- Siop Ogwen, Bethesda, a thrwy archeb gyda Cadwyn Ogwen
- Marchnad Ogwen
- Londis, Bethesda
- Barbwr Ogwen, Stryd Fawr, Bethesda
- Caffi Seren, Bethesda
- Post Rachub
- Llys Y Gwynt (Siop SPAR)
- Siop Palas Print, Caernarfon
- Awen Menai, Porthaethwy

Gellir danfon y Calendr trwy'r post am £1.10 yn ychwanegol.
Ymholiadau archebion at Now Jones: 01248 600184
**post@llaisogwan.com**



# YSGOL RHIWLAS

**Ed Holden**
Cafwyd ymweliad gan Ed Holden ar ddiwrnod dathlu Owain Glyndŵr eleni. Ysgrifennodd rap gyda'r plant i ddathlu ein Cymreictod. Roedd pawb wedi mwynhau'n arw ac rydym yn edrych ymlaen croesawu Mr Phorumla atom eto yn y dyfodol am fwy o hwyl.

**Parti Cyw**
Mae prynhawn o hwyl gydag ein ffrindiau Cyw wedi ei drefnu ar gyfer dydd Iau, 24ain o Dachwedd. Mae croeso i blant Rhiwlas a Phentir i ymuno yn yr hwyl. Bydd cyfle i chi fel rhieni ymweld â'r ysgol, cyfarfod y staff a chael hwyl gyda'r tîm Cyw yn y sesiwn dawnsio a chanu gydag eich plant bach. Rydym yn agor ein drysau i blant 0-3 yr ardal. Cysylltwch â'r ysgol am fwy o wybodaeth.



**Gweithdy Llosgfynyddoedd**
Roeddem yn lwcus iawn o gael Steven Wright yma yn ddiweddar i gynnal gweithdy am losgfynyddoedd gyda disgyblion Cyfnod Allweddol 2; roedd y plant yn llawn brwdfrydedd a chwestiynau am ei anturiaethau dros y blynyddoedd. Diolch iddo am ei amser ac am rannu straeon difyr gyda ni gyd.



**Picnic Tedi Ber**
Cafodd plant y Cyfnod Sylfaen fore arbennig gyda'u ffrindiau bach yn ddiweddar. Aethom ati i greu gwahoddiadau lliwgar ar gyfer ein picnic ac ysgrifennu rhestr siopa. Er gwaetha'r gwynt a'r glaw drwy'r wythnos, cawsom fore sych i fynd allan i wledda. Ar ôl bwyta llond bol, aethom i'r goedwig i wrando ar stori Elen Benfelen a chanu ein hoff hwiangerddi. Am fore diddorol!

**Bwyd Bendigedig Rhiwlas**
Hoffem ddiolch yn fawr iawn i dîm anhygoel Rhiwlas am eu gwaith caled a'u hymroddiad dros y blynyddoedd diwethaf.

Mae'r plant yn mwynhau'r sesiynau garddio wythnosol yn fawr ac yn datblygu llawer o sgiliau gwerthfawr megis sut i fod yn unigolion cydwybodol ac yn gallu cymryd cyfrifoldeb dros gynaladwyedd y blaned.

Ers rhai misoedd bellach, mae'r clwb garddio yn rhannu eu cynnyrch gyda'r cyhoedd ac mae'r plant yn dysgu pwysigrwydd gwaith cymunedol. Yn ddiweddar, cawsom y cyfle i wneud sudd afal cartref ac roedd y plant yn hynod ddiolchgar o'r profiad hwn. Diolch yn fawr iawn i Emily ac Angharad am yr holl gyfleoedd.

**Rhoddion Bwyd**
Cyn y pandemig, roeddem wedi dechrau rhannu rhoddion bwyd gyda rhieni'r ysgol ac rydym yn hapus i gyhoeddi ein bod bellach yn gallu darparu'r gwasanaeth hwn unwaith eto. Gyda diolch i Tesco Extra ym Mangor, rydym yn gallu cynnig y rhoddion bwyd unwaith yr wythnos o Ysgol Rhiwlas felly cofiwch ddod draw gydag eich bag i weld beth sydd i'w gynnig.

**Disgo Calan Gaeaf**
Braf oedd cael agor ein drysau unwaith eto i gynnal digwyddiadau i'r plant. Penderfynodd rhai o'n disgyblion blwyddyn 5 a 6 eu bod am drefnu disgo Calan Gaeaf yn neuadd yr ysgol a chasglwyd dros £120! Diolch mawr i bawb ddaeth i'n cefnogi ni – roedd y plant yn edrych yn wych yn eu gwisgoedd ffansi a phawb wedi cael llond bol o gacennau! Mae bingo Nadolig wedi ei drefnu hefyd felly bydd mwy o fanylion i ddilyn.


JR SGAFFALDIAU Cyf. SCAFFOLDING Ltd. JR
YR IARD, FFORDD STESION, BETHESDA, GWYNEDD LL57 3NE
ebost: sales@jrscaffolding.co.uk
Ffôn/Ffacs:
01248 601754
07770 568743 (symudol)
CITB

SIÂN GWENLLIAN
AELOD O'R SENEDD DROS ARFON
CYSYLLTWCH:
sian.gwenllian@senedd.cymru
01286 672 076
70 Stryd Fawr, Bangor
Senedd Cymru
Welsh Parliament

Talwyd costau'r cyhoeddiad hwn gan Gomisiwn y Senedd o gronfeydd cyhoeddus

# Beth sy'n digwydd yn y Dyffryn

Canolfan Cefnfaes
**Bore Coffi**
**Plaid Lafur**
**Sadwrn, 26 Tachwedd**
10.00 – 12.00
Mynediad £1.00

Canolfan Cefnfaes
**Bore Coffi**
**Plaid Cymru**
**Sadwrn, 3 Rhagfyr**
10.00 – 12.00
Mynediad £1.00

Eglwys Unedig Bethesda
Cynhelir
**Y GYMDEITHAS**
(Carolau a Darlleniadau)
yn Festri Jerusalem
**Nos Iau, 8 Rhagfyr**
am 7.00 o'r gloch

CLWB HANES RACHUB
**Caellwyngrydd a Llanllechid**
yn y Clwb Criced
am 7 o'r gloch

* * *

**Nos Fercher, 30 Tachwedd**
Mrs. Anna Griffith:
Gwaith Anna Pritchard

* * *

**Nos Iau, 8 Rhagfyr**
Mr. Arwyn Jones:
Defnyddio "diffibriliwr"

Canolfan Cefnfaes
**Bore Coffi**
**Cronfa Apêl**
**Tracey Smith**
**Sadwrn, 19 Tachwedd**
10.00 – 12.00
Mynediad £1.00

Festri Carmel
Llanllechid
**TE BACH**
**Pnawn Llun, 5 Rhagfyr**
2.30 – 4.00
Croeso i bawb

Cynhelir
**Clwb Coffi Talybont**
yn
Festri Bethlehem
Ar foreau Llun
**Tachwedd 28 am 10.30**
Dewch am banad a sgwrs

Canolfan Cefnfaes
**Bore Coffi**
**Er budd Organ**
Capel Jerusalem
**Sadwrn, 10 Rhagfyr**
10.00 – 12.00
Mynediad : £1.00

## CYMDEITHAS HANES DYFFRYN OGWEN

(Darlith wyneb yn wyneb a rhithiol drwy gyfrwng Zoom)

**Nos Lun Rhagfyr 12fed, 2022**
**7.00 : Cyfarfod Blynyddol**
**7.15 : Erwyn Jones**
**Rheoli Chwarel Lechi Gyfoes**

Wyneb yn wyneb: Yn Festri Capel Jerusalem, Bethesda.
Cofrestrwch efo **garethllwyd197@btinternet.com**

Rhithiol tros Zoom: Cofrestrwch efo **bethan@ogwen.org**

Cofrestrwch erbyn 12 o'r gloch dydd Llun, Rhagfyr 12fed, ar yr hwyraf os gwelwch yn dda

**Tal Aelodaeth**
£10.00 i rai mewn gwaith | £5.00 i bensiynwyr a'r di-waith
Plant ysgol am ddim
Cost darlithoedd unigol = £2.00
Y ffioedd i'w talu i gyfrif 'Cymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen' drwy: BACS: 40-16-02 41386212 Neu drwy siec.



**Gwasanaeth Nadolig Cymunedol**
**yng Nghapel Jerusalem**
**Nos Sul, Rhagfyr 18**
am 7.00yh
Dewch i ddathlu'r Ŵyl yng nghwmni

**Côr Meibion y Penrhyn**
**Côr Ysgol Dyffryn Ogwen**
ynghyd ag unawdwyr

"Mynediad am ddim"
Gwneir casgliad tuag at achos da
Croeso cynnes i bawb

Canolfan Cefnfaes
**Gyrfa Chwist**
**Tachwedd 22 a 29**
**Rhagfyr 13 a 20**
am 7 o'r gloch.
Croeso i bawb

**CLWB CRICED A BOWLIO**
# NOSON BINGO
**Nos Iau, 1 Rhagfyr**
7 o'r gloch
(Cyfle i wisgo siwmperi Nadolig)
£5.00 am chwe gêm
**Elw at Apêl Eglwys Crist Glanogwen**



# Tri Digwyddiad yn Eglwys Sant Tegai, Llandygai

* * * * * * * * *

**Nos Sul, 11 Rhagfyr am 6.00yh**

## Cyngerdd Côr Merched "Cantabile"

(yn cynnwys gwaith
John Rutter ac eraill,

A chanu carolau cynulleidfaol
anffurfiol)

Mynediad am ddim, ond
gwahoddir unrhyw gyfraniadau tuag
at Gronfa Atgyweirio'r Eglwys

* * * * * * * * *

**Nos Sul, 18 Rhagfyr am 6.00yh**

## Gwasanaeth Naw Llith a Charol

(am y tro cyntaf ers 2019)

Lluniaeth ysgafn nadoligaidd
i ddilyn. Croeso cynnes i bawb
yn ôl i'r Eglwys!

* * * * * * * * *

## Noswyl y Nadolig

**24 Rhagfyr am 11.00yh**

Cymun Bendigaid


**Elwyn Jones & Co**

hefyd yn masnachu fel
Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd LLP

- Cyfreithwyr -

123 Stryd Fawr
Bangor
Gwynedd
(01248) 370224

*Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol*
*Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar*

*Swyddfeydd eraill:*

*Llangefni (01248) 723106* — *Porthaethwy (01248) 719517* — *Benllech (01248) 852782*

*Caernarfon (01248) 673616* — *Pwllheli (01758) 703000*


# Iaith Pesda

## gan Mary Jones

Mae wedi bod yn galondid mawr i mi bod nifer o ddarllenwyr y Llais wedi dweud wrhyf eu bod yn cael blas ar y dudalen. Nifer yn sôn iddynt gael eu hatgoffa o'u plentyndod a'r geiriau a ddefnyddiwyd gan eu rhieni. Peidiwch a bod yn swil o'u rhannu.

**Tân**

Tân nwy, tân trydan, dyma ddau fath sy'n bur newydd i'n byd. Mae tân glo ychydig yn hyn a thân coed yn mynd yn ôl ers cyn cof. Ychydig ddegawdau yn ôl roedd tân glo heb eithriad ar bron bob aelwyd. Yn aml byddwyd yn paratoi'r tân yn fuan, cyn ei bod yn amser i'w gynnau a'r enw arno – 'tân oer', dau air gwrthgyferbynniol ond sy'n creu darlun perffaith. A beth am 'tân eira' pan welwn fflam las yng nghanol y rhai oren. Rhaid gosod giard o flaen y tân yn enwedig ar ddiwedd noson, neu os oeddech yn mynd allan, rhag ofn i'r tân 'bicio' a gwneud niwed i'r carped neu hyd yn oed creu damwain mwy difrifol.

Wrth sôn am dân ar bob aelwyd ers talwm roedd yn rhaid i chi daro cadach gwlyb ar hyd y lein ddillad rhag ofn ei bod yn fudur gyda huddug fyddai yn dod o'r corn simdda. Tybed faint o ddefnydd sydd ar eiriau fel 'lludw' 'huddug' 'tanllwyth' 'mud losgi'. A dyna i chi'r 'lori ludw', lori bins neu lori sbwriel heddiw. Byddai llawer o wastraff a sbwriel yn cael eu llosgi ers talwm a rhoddwyd y lludw yn y bin. Cofiaf weld 'dim lludw poeth' wedi ei ysgrifennu ar y caead, a chofio ambell i fin yn mynd ar dân wedi i rywun roi sbwriel ar ben lludw poeth.

Ac fel mae un peth yn arwain i'r llall, rydwi'n cofio sôn fel y byddaf yn edrych i weld os ydy wedi cau tua'r chwarel cyn rhoi dillad ar y lein. Clywais yn ddiweddar mai edrych ar llwybr yr ardd y bydd llawer. Os ydyw yn wlyb waeth i chi fynd a'r dillad yn ôl i'r ty ddim.



**Rhoi 'bach' yn lle 'fach'**

Mae'n ddiddorol fel ryda ni'n peidio â threiglo'bach' ar ôl,rhai enwau benywaidd. Dyma i chi rai engrhreifftiau: 'ysgol bach', 'hogan bach', 'afon bach', 'ffôs bach' a 'lôn bach'. Lôn Bach Awyr ydy enw'r lôn rhwng Pentir a Rhiwlas, a Lôn Bach Odro ydy yr enw'r llwybr yng Ngoetmor, sydd bellach yn enw ar y stâd dai newydd wrth ei chwr. A beth am Afon Bach Llan a Ffos Bach Foel, y ffos a dorrwyd drwy nerth bôn braich – gwaith caib-a-rhaw – er mwyn dwâd â dwr o Afon Ffrydlas wrth droed y Gyrn i hen Blas Coetmor i droi'r rhod yno ers talwm.

**Cadwriat**

Pan fyddai plant yn ymddwyn yn afreolus a swnllyd yn gyhoeddus, gan aflonyddu ar eraill, byddem yn dweud eu bod yn 'cadwriat' sef 'cadw reiat' a buan iawn byddai rhywun yn datgan "Mae isio certio'r cnafon o'ma!", sef y syniad o'u rhoi nhw mewn cert, sef trol fechan a'u cludo nhw i ffwrdd.

**Moirio**

Ia, moirio, ac nid morio fel yr ymddangosodd yn y rhifyn diwethaf. Ymddiheriadau am hynny. Dyma ychydig o eirfa'r pysgotwr i chi gyda diolch unwaith eto i Gwyn Jones.

**Pysgod yn troi** Pysgod yn torri ar wyneb y llyn wrth fwydo ar bryfed.
**Pysgod yn drwm** Pysgod sydd yn llawn wyau at ddiwedd y tymor.
**Amser claddu** Y cyfnod ddiwedd tymor pan mae'r pysgod yn cymharu a gollwng eu wyau a'u claddu yn y graean.
**Gwniedyn Brithyll** sydd wedi bod yn y môr am gyfnod ac yn dychwelyd i'r afon i gladdu ('sewin') yn rhannau eraill o Gymru).
**Sils Gog** Eogiaid ifanc ar eu siwrnai cyntaf o'r afon i'r môr.
**Silidon** Y pysgod mân sy'n byw yn Llyn Ogwen a Llyn Idwal.

A glywsoch chi am y gair 'poethall'? Byddaf yn ei drafod mis nesaf anfonwch os gwyddoch amdano neu efallai air tebyg iddo. Byddaf hefyd yn trafod rhai o'r geriau anfonwyd gan gyfranwyr nad oedd lle i mi eu cynnwys y mis hwn.
Mary Jones, 42 Erw Las, Bethesda
LL57 3NN (Ffôn 07443047642)
**maryeds@hotmail.co.uk**

## Tregarth

**Olwen Hills** (Anti Olwen), 48 Bro Syr Ifor, Tregarth (600192)
**Angharad Williams**, 23 Ffordd Tanrhiw, Tregarth (601544)
**Gwenda Davies**, Llanfairpwll (gwendaglyn@hotmail.com)

**Profedigaeth**

Ar Hydref 2 yn Ysbyty Gwynedd bu farw William Hughes, Isallt, Cerrig Llwydion , ar drothwy ei ben-blwydd yn 99 mlwydd oed. Roedd yn briod i'r diweddar Olwen , yn dad i Glyn, John, Gwenda ac Aled, taid Aled, Ffion, Catrin, Bethan ac Owain ac yn frawd i Alwena.

Gweithiodd fel heddwas yn Heddlu Gogledd Cymru hyd ei ymddeoliad. Bu'r gwasanaeth angladdol yng Nghapel Jeriwsalem, Bethesda ar Hydref 13 ac yn dilyn rhoddwyd ef i orffwys gyda'i ddiweddar briod ym mynwent Ty'n Rhos, Rhoscolyn, Ynys Môn. Mae ein cydymdeimlad gyda chi i gyd fel teulu yn eich profedigaeth.

Daeth y newyddion trist hefyd am farwolaeth Blodwen Jones, 6, Godre'r Parc, Sling, fu farw yng Nghartref Nyrsio Glan Rhos, yn 95 oed ar Hydref 23. Roedd Blodwen yn briod a'r diweddar Griff, yn fam i Eleri a'r diweddar Trefor, ac yn nain i Carys, Delyth, Stephen. David , Bethan ac yn hen nain i Elgan, William, Griff, Nel, Elis a Henrik.

Roedd hefyd yn chwaer i'r diweddar Goronwy, Meurig, John, Robin, Dafydd, Grace a Llew. Cleddir hi ym Eglwys Sant Cedol, Pentir, ar Dachwedd 5 a chydymdeimlwn gyda chi fel teulu yn eich colled fawr.

**Triniaeth yn Ysbyty Great Ormond Street, Llundain**

Rydan ni fel trigolion y Dyffryn yn meddwl am deulu bach o Gaerdydd ond yn hanu o Ddyffryn Ogwen sydd wedi gorfod wynebu triniaeth ar fwy nag un achlysur yn yr ysbyty yma yn Llundain. Sef Nansi, merch fach Llinos Haf Evans a'i phriod Arwel, a chwaer fawr Nia.

Mae Llinos yn ferch i Einir ac Elfed Williams, Tal y Cae, Tregarth , a'n gobaith ni i gyd ydi y bydd Nansi fach yn gwella'n fuan ac na fydd angen mwy o lawdriniaethau. Cofion atoch fel teulu.

**Artist o fri**

Llongyfarchiadau mawr i'r artist Rhiannon Gwyn, Gorffwysfa, Sling, sydd wedi cael ei dewis ar gyfer '@british_ceramics_biennial Talent Development Programme'. Bydd Rhiannon yn awr yn cael ei mentora am y misoedd nesa ac edrychwn ymlaen yn fawr i gael gweld ei gwaith seramig a llechen. Pob dymuniad da i ti Rhiannon. Dylem fod yn falch iawn ohoni fel artist o Ddyffryn Ogwen!

**Penblwydd arbennig**

Ar Dachwedd 14 bydd Wynn Williams, Tyddyn Dicwm, yn dathlu ei benblwydd yn 90 oed. Llongyfarchiadau mawr Wynn ar gyrraedd y garreg filltir yma !

**Merched y Wawr Cangen Tregarth**

Nos Lun, Hydref 3, yn Festri Capel Shiloh Newydd, Tregarth, cynhaliwyd noson ddifyr a hwyliog yng nghwmni Alwyn Jones o Ambiwlans Awyr Cymru. Rhoddodd gyflwyniad ar bwysigrwydd gwaith yr Ambiwlans Awyr a thanlinellu'r cynnydd blynyddol i gostau'r gwasanaeth pwysig hwn. Ar ddiwedd y noson casglwyd y swm anrhydeddus o £171 gan yr aelodau tuag at yr elusen. Enillydd y gystadleuaeth am ennill Cwpan Chwiorydd Perthi oedd Jen Temple Morris.

Bydd y noson nesa o'r gangen Nos Lun, Tachwedd 7, sef noson yng nghwmni Paul Thomas fydd yn sgwrsio am ei daith i gopa mynydd Kilimanjaro. Croeso cynnes i bawb a hoffai droi i mewn am gwmni difyr a noson o fwynhad. Bydd yn cychwyn ân 7.30. Dewch yn llu.

Bydd y gangen yn dathlu'r Nadolig gyda swper mewn bwyty lleol ac os hoffech fynychu cofiwch gysylltu hefo Christine ar 600580 neu Carol ar 6012328.

Ni fydd y gangen yn cyfarfod ym Mis Ionawr yn ol yr arfer.

**Capel Shiloh Newydd**

Pen-blwydd hapus iawn a phob dymuniad da i'n cyn-weinidog, y Parchedig Gwynfor Williams, Caernarfon a ddathlodd ei benblwydd yn 90 oed ar Dachwedd 4. Cofion annwyl ato a Kattie ei wraig.

Cynhelir y gwasanaethu yn Shiloh Newydd am 5 o'r gloch oni nodir yn wahanol.

| | |
|---|---|
| Tachwedd 13 | Dr Jennie Hurd |
| Tachwedd 20 | Eufryn Davies, Llandegfan |
| Tachwedd 27 | Olaf Davies, Llandegfan |
| Rhagfyr 4 | Ffion Rowlinson |
| Rhagfyr 11 | R.O.Jones, Gaerwen |
| Rhagfyr 18 | Gwasanaeth y Nadolig |
| Rhagfyr 24 | Noswyl y Nadolig Dr Ian Morris am 6 o'r gloch |

Rydym mor ddiolchgar fel capel o gael ein horgannydd gwych Wynn Williams yn cyfeilio i ni bob Sul. Bydd Wynn yn dathlu ei benblwydd yn 90 oed ar Dachwedd 14. Anodd credu y peth! Diolch o waelod calon Wynn am eich cyfraniad anhygoel i'r gwasanaethau a dymunwn benblwydd hapus iawn i chi ymysg y teulu gan holl aelodau Shiloh!

Drws Agored Shiloh Newydd. Cofiwch fod y drws ar agor bob bore Gwener yn Shiloh am gwmni, cynhesrwydd, sgwrs a phaned.

Mae criw da yn dod draw a chroeso cynnes i unrhyw un arall a hoffai ymuno.

**Eglwys St Mair, Gelli**

Gwasanaethau dal ar y dydd Sul 1af a'r 3ydd o'r mis.

Ond cadwch olwg ar hysbysfwrdd yr eglwys lle fydd yna gyhoeddiadau am unrhyw newidiadau.

Mi fydd yna gwasanaeth Carolau Adfent dydd Sul Tachwedd 27ain am 4yp.

Mae Te Bach nesaf ni dydd Mawrth Tachwedd 22ain am 1yp

## PLAID CYMRU DYFFRYN OGWEN

Yng nghyfarfod y gangen mis Hydref trafodwyd y digwyddiadau cymdeithasol sydd ar y gweill. Bydd aelodau'r Blaid yn cyfarfod dros ginio Nadolig yn nhafarn y Tryfan, ar nos Fercher, 30 Tachwedd. Bydd y gangen hefyd yn estyn gwahoddiad ac yn croesawu pawb i'w bore coffi yng Nghanolfan Cefnfaes, ar ddydd Sadwrn, Rhagfyr 3.

Roedd hefyd drafodaeth bellach am safon y gwasanaeth bysiau lleol. Mae ein cynghorwyr yn ymwybodol o'r sefyllfa ac yn pwyso ar Arriva i wella'r gwasanaeth. Gobeithiwn y byddant yn cyflogi mwy o yrwyr yn fuan er mwyn i'r gwasanaethau fod yn fwy dibynadwy.

Mae cynghorwyr Gwynedd hefyd wedi pasio cynnig yn gwrthwynebu'r teitl "Tywysog Cymru" ac i wrthwynebu cynnal arwisgiad arall yng Nghymru. Credwn nad oes gan Gymru angen tywysog bellach. Mae hyn yn dilyn deiseb sydd wedi cael ei arwyddo gan 38,000 o bobl yn galw am "ddod â theitl tywysog Cymru i ben, er mwyn dangos parch i Gymru."

Yn olaf rhaid sôn ein bod yn pryderu yn fawr am ddyfodol gwasanaethau cyhoeddus yn dilyn y trafferthion gwleidyddol yn San Steffan. Nid oes gan y Prif Weinidog newydd unrhyw fandad gan blaid ei hun, heb sôn am bobl Cymru. Byddai toriadau pellach i wasanaethau yn drychinebus, gyda'r sefyllfa mor ddifrifol yn barod.

Dilynwch Llais Ogwan ar Trydar **@Llais_Ogwan**

**DAFYDD CADWALADR**
**Cynhyrchion Coedlannol**
Coed Tân - Llwythi bach a mawr
Ysglodion pren i'r ardd
Ffensio a thorri coed
Asiant system gwresogi trwy losgi coed
**01248 605207**

# Natur o'n Cwmpas

# Gwalch y Pysgod – ymwelydd annisgwyl



Daeth aderyn prin i warchodfa natur Aberogwen fis Medi, a bu naturiaethwyr, bob un a'i sbienddrych a'i gamera, yn tyrru bob awr o'r dydd a'r gyda'r nos i'r cuddfannau ar lan Llyn Celanedd er mwyn cael cip arno a thynnu ei lun. Gwalch y pysgod (*Pandion haliaetus*; *osprey*) oedd yr ymwelydd annisgwyl, a thybir ei fod wedi oedi yma ar ei daith o'r Alban i Affrica.

Mae gwalch y pysgod yn aderyn mawr, trawiadol efo lled ei adenydd dros fetr a hanner.  Aderyn ysglyfaethus ydi o, ac mae o'n bysgotwr o fri. Efo'i lygaid hynod o gryf, mi fedr weld cefn pysgodyn dan wyneb y dŵr o gryn bellter. Ei gamp arbenigol ydi cipio eog, gwyniedyn neu frithyll o'r dŵr efo'i grafangau mawr a'i gludo i'w nyth ar ben coeden (neu lwyfan wedi'i greu'n bwrpasol ar ben polyn mewn gwarchodfeydd).

Dim ond mewn ambell le yng Nghymru y mae'r adar hyn yn nythu. Y tri lle agosaf atom ni i'w gweld nhw ydi canolfannau natur Pont Croesor ger Llanfrothen, Llyn Brenig ar Hiraethog, a Chors Dyfi ger Machynlleth. Mae'r adar yn dychwelyd yno o orllewin Affrica (taith 3,000 o filltiroedd) yn y gwanwyn i fagu, ond mae hi wedi golygu ymdrech fawr dros nifer dda o flynyddoedd i sicrhau amgylchiadau derbyniol i'r adar hyn.

Doedd gweilch y pysgod ddim wedi nythu yng Nghymru ers cannoedd o flynyddoedd, ac roedden nhw wedi eu herlid yn ddidrugaredd yng ngwledydd Prydain nes iddyn nhw bron â darfod a bod. Cafodd pâr eu cyflwyno i'r canolbarth yn 2004, a llwyddwyd i fagu'r cyw cyntaf yng Nghymru ers canrifoedd. Ers hynny, mae'r cynllun i'w hail-gyflwyno wedi mynd o nerth i nerth er gwaethaf llawer o drafferthion.

Mae sefyllfa'r adar hyn yn gryfach yn yr Alban. Yno, maen nhw wedi cael troedle sicr oherwydd bod eu nythod mewn llefydd go anhygyrch, a'r gobaith ydi y bydd Cymru hefyd yn dod yn gynefin magu diogel a ffyniannus i'r aderyn hynod hwn.

## Wyddech chi ...?

- fod tri sboncyn y gwair pinc wedi eu gweld mewn gardd ym Methesda fis Awst eleni. Gwyrdd neu frown ydi lliwiau arferol y pryf hwn, ond weithiau gall droi'n binc drwy wyriad genynnol (cofnod swyddogol gan Ben Morcott, Swyddog Cadwraeth. Gweler adroddiad yn y *Daily Post* 02.08.22)
- fod gwiwer lwyd wedi ei gweld ar gopa'r Drum (750 m; 2.500 tr.) ac ar ben y Glyder Fach (978 m; 3.260 tr.). (cofnod swyddogol, 1972).

Mae'r golofn hon yn rhoi sylw i ryfeddodau a gwahanol agweddau ar fyd natur Dyffryn Ogwen a'r cyffiniau, gan fanteisio ar wybodaeth leol ac ar ffynonellau eraill.

Anfonwch eich cyfraniadau at Ieuan Wyn, Talgarreg, Ffordd Carneddi, Bethesda LL57 3SG. 01248 600297 ieuanwyn01@gmail.com

STEPHEN JONES
TREFNWR
ANGLADDAU CYF
PEN Y BRYN BETHESDA
GWASANAETH PERSONOL
PEDAIR AWR AR HUGAIN
CAPEL GORFFWYS
BETHESDA • 01248 600455 • 07770265976
Ebost: stephenjonesfuneraldirectors@outlook.com

HYWEL WILLIAMS
AELOD SENEDDOL DROS ARFON

CYSYLLTWCH:
01286 672076
70 Stryd Fawr, Bangor
hywel.williams.mp@parliament.uk
YMA I BOBOL DYFFRYN OGWEN AC ARFON

## OGWEN TERRACE, BETHESDA

# UN RHES, DAU DDEG DAU O DAI

gan Andre Lomozik

**Rhan 2**

Am ba reswm bynnag, nid yw cyfrifiad 1861 ar gael, ac felly nid oes modd darganfod pwy oedd yn byw yn y tai yma rhwng 1853/4 a chyfrifiad 1871, ond wrth edrych ar adroddiadau yn y newyddiaduron rhwng 1853 a 1871 mae'n bosib rhoi enwau i rai a oedd yn preswylio ynddynt, ond nid oes modd cysylltu pob unigolyn â thŷ penodol. Dyma enwau rhai a oedd yn byw yn Ogwen Terrace yn ystod y blynyddoedd cynnar.

Hysbyseb, 24/05/1856 *To be sold by private contract etc. Mr Edward Foulkes, Mount Pleasant, Conway;* ***Mr Richard Hughes, Ogwen Terrace, Bethesda****; Mr Henry Lloyd Jones, Solicitor, Bangor.*

*List of Subscriptions 07/02/1857 For the purpose of making up the loss of* ***Mr Morris Williams, Cabinet Maker, Ogwen Terrace, Bethesda,*** *whose premises were partly burnt to the value of from £150 to £200 Jan 6th 1857.*

Marwolaeth 15/08/1857 **Mr Mathew Roberts,** teiliwr a dilledydd, yn 46 oed, Ogwen Terrace, Bethesda.

Marwolaeth 05/04/1858 **Mr William Jones**, yn 66 mlwydd oed, ac wedi ei gladdu ym mynwent Eglwys Crist, Glanogwen.

Genedigaeth 13/01/1858 Merch i **Mr a Mrs Morris Williams, saer, Ogwen Terrace, Bethesda**

Bu i un trychineb ar ôl y llall ddilyn Morris Williams ar ôl i'w dŷ losgi yn y flwyddyn 1857. Bu farw ei wraig Winifred yn 39 oed yn 1865, a phump o'i blant rhwng 1859 a 1866. Roedd yr ieuengaf yn ddau fis oed a'r hynaf yn chwech oed.

Marwolaeth 14/04/1858 **Mr William Jones, Foundry, Ogwen Terrace,** yn 66 mlwydd oed.

Llanllechid 21/04/1858 . – Etholiad Gwarcheidwaid y Tlodion. Cymerodd ymdrechfa galed le yn y plwyf hwn yr wythnosau diweddaf, mewn perthynas i etholiad gwarcheidwaid y tlodion am y flwyddyn bresennol. Yr oedd pump o bersonau ar y rhestr, o'r rhai hyn yr oedd tri i'w dewis; ac ar ôl edrych dros y gwahanol bleidleisiau, da gennym hysbysu i'r peth droi allan yn ffafr yr Ymneilltuwyr; canys etholwyd dau Ymneilltuwr cywir galon; a gobeithir y gweithredant yn unol â'u hegwyddorion, ac y caiff Ymneilltuwyr plwyf Llanllechid weled a phrofi ffrwyth cynhyrchiol oddi wrth eu gwaith yn eu hethol i'r fath swydd bwysig o reoli achosion y plwyf yn eu gwahanol gysylltiadau. Y personau a etholwyd oeddynt y rhai canlynol:- Y Parch E. Lewis, curad Llanllechid; **Mr Richard Hughes, Ogwen Terrace, Bethesda;** a hefyd Mr John Jones, Tŷ'n y maes, ger Bethesda. Gohebydd.

Marwolaeth 09/06/1858 **Richard** mab **Mr Hugh Pritchard**, yn 25 oed. Roedd yn aelod rheolaidd o eglwys Bethesda o'i febyd.

Genedigaeth 21/07/1858 Merch i **Mr Robert Williams**, dilledydd a'i wraig, London House, Ogwen Terrace, Bethesda

Priodas 05/11/1859 Yng nghapel Bethesda, Mr D. Owen, Slate Yard, Bethesda, â **Miss Ellen Evans,** Ogwen Terrace, Bethesda.

Marwolaeth 05/08/1859 **Sarah Ann Williams**, yn dair oed, wedi ei chladdu ym mynwent Eglwys Crist, Glanogwen.

Priodas 16/06/1860 Yn swyddfa'r cofrestrydd, Bangor, gan Mr R. Pritchard, cofrestrydd, Mr W. J. Edwards, i **Miss Elizabeth Thomas,** Ogwen Terrace, Bethesda.

Marwolaeth **John Edwards**, 12/09/1860, yn bythefnos oed, wedi ei gladdu yn Eglwys Crist, Glanogwen.

Marwolaeth 12/10/1861 **Mr Thomas Williams**, 40 oed, fferyllydd, Ogwen Terrace, gynt o Gaernarfon.

Marwolaeth **Jane Williams**, 23/10/1861, yn ddeg diwrnod oed. Wedi ei chladdu ym mynwent Glanogwen.

*Bethesda Improvement Act, 1854, 15/08/1863. Annual meeting for the Election of Commissioners.* ***Mr John Sennar, Ogwen Terrace, Mr Hugh Hughes, Surgeon, Ogwen Terrace, Bethesda.*** (efallai mai rhif 22 oedd ei gartref)

Llanllechid 28/02/1864 Vestry, **Mr R. Hughes, Ogwen Terrace.**

John Sennar 13/07/1867 *'Creditors and all persons having any claims or demands upon, or against the estate of the* ***Reverend John Sennar, late of 5, Ogwen Terrace, Bethesda,*** *Independent Minister and Woolen Manufacturer.'*

Mae'r Parchedig John Senner, wedi ei gladdu ym mynwent Eglwys Llanllechid. Bu farw ar yr 27$^{ain}$ o Fai 1867, a dyma beth sydd wedi ei ysgrifennu ar ei garreg fedd. *In loving Memory of the Rev. John Senner, Died May 27, 1867 in the 63$^{rd}$ year of his age, and the 40$^{th}$ of his ministry. Also Anne, his beloved wife, who died April 16$^{th}$ 1877 aged 75 years.*

*Why should we mourn departed friends,*
*Or shake at death's alarms?*
*Death's but the servant Jesus sends*
*To call them to his arms.*
*Erected by their loving grandchild Annie J. W. Horne*

Marwolaeth 05/03/1869 Chwefror 26, **Mr John Evans,** Ogwen Terrace, Bethesda, Arfon, a thad y Parch. W. Evans, gweinidog y Bedyddwyr yn Glynceiriog, swydd Dinbych. Dioddefodd gystudd trwm a maith yn dawel. Bu am lawer o flynyddoedd yn aelod hardd, a diacon cymeradwy, yn eglwys Fedyddiedig y Tabernacl, Bethesda. Gadawodd deulu galarus ar ei ôl. Bydded Duw yn nawdd iddynt yn ngwyneb y brofedigaeth chwerw hon.

Was doeth i 'wyllus ei Dad – ymroddodd
Am ryddid nefolwlad,
Ei loes hon fu o leshad
I gyrraedd dwyfol gariad.

'Damwain Angheuol 20/10/1869 Dydd Gwener, y 15fed cyfisol, fel yr oedd Mri. **Thomas Parry,** Ogwen Terrace, Bethesda; David Jones, Tan y gadlas, ger Bethesda (Roker gynt), 69 mlwydd oed, a Samuel Jones, Tairmynydd, ger Bethesda 68 mlwydd oed, yn dilyn eu goruchwyliaeth yn chwarel Caebraich y Cafn, disgynnodd darn o'r clogwyn arnynt yn hollol ddirybudd, a hynny o uchder dwy bonc o'r lle yr oeddynt yn gweithio, fel yr anafwyd T. Parry yn drwm, a derbyniodd y ddau arall y fath ddyrnodiau fel y bu S. Jones farw yn y fan, a bu D. Jones farw ym mhen tua hanner awr. Yr oedd y ddau yn aelodau parchus gyda'r Trefnyddion Calfinaidd, a pherchid hwy fel y cyfryw gan eu holl gydnabod. Gohebydd.'

Adroddiad yn *Y Tyst Cymreig*, Rhagfyr 17, 1869. 'O'r Twr Llechi'. Mae **Mr Richard Hughes,** Ogwen Terrace, yn cael ei enwi yn yr erthygl yma.

(i'w barhau)


Owen's Tregarth
Cerbydau 4, 8 ac 16 sedd
Arbenigo mewn meysydd awyr
Cludiant Preifat a Bws Mini

01248 60 22 60 | 07761 619 475
www.owenswales.co.uk

JOHN ROBERTS

Paentiwr
Papurwr
Teilsiwr
Symudol: 07747 628650
Ffôn: 01248 600995

Londis Bethesda
☎ 01248 605566
Archfarchnad hwylus
a Swyddfa Bost
Gwasanaeth personol
gyda'r pwyslais ar y cwsmer
Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a nwy
Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr
7 diwrnod yr wythnos

# CHWILAIR



## LLEFYDD YNG NGHYMRU

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| C | I | J | T | R | A | E | T | H | C | O | C | H | K | O | X | R | T | Z | J |
| C | K | P | H | X | G | K | C | N | N | N | F | F | K | Z | N | P | J | J | U |
| X | R | O | D | O | G | S | Y | P | Y | H | C | Y | B | N | I | D | T | T | O |
| N | Y | R | F | A | Z | M | Z | F | V | C | L | B | Z | J | S | W | R | Y | V |
| K | R | T | H | W | E | J | K | C | Y | Z | A | E | C | B | Q | H | A | D | U |
| D | S | H | K | M | N | C | Y | I | N | Y | H | U | W | K | N | H | E | D | S |
| I | D | M | L | L | Z | J | P | S | Y | M | E | I | K | M | J | M | T | E | B |
| E | D | A | Z | O | L | X | V | P | S | K | H | V | P | H | N | Q | H | W | W |
| G | Y | W | Q | B | M | V | W | F | L | Z | R | S | G | A | X | G | L | I | M |
| J | W | R | V | P | A | K | F | M | A | N | G | O | G | P | I | O | A | T | S |
| E | E | Y | D | L | S | O | O | N | W | T | X | A | O | P | V | L | F | A | Y |
| A | N | T | D | X | G | Q | Y | U | D | B | F | C | J | W | F | Y | A | P | Z |
| U | S | K | Y | A | A | P | U | M | N | F | E | T | Y | H | E | D | N | Z | D |
| I | Y | E | N | K | M | C | J | H | N | R | S | H | B | H | V | G | J | P | B |
| G | W | K | Y | B | T | K | A | I | D | A | S | N | L | S | A | C | G | N | U |
| Q | L | G | M | V | M | L | A | N | L | B | W | R | E | C | S | A | M | R | R |
| L | G | G | H | P | J | S | I | W | C | W | P | V | A | R | R | W | J | V | U |
| X | E | C | C | G | N | L | I | T | U | L | K | E | X | M | D | Y | Q | P | C |
| L | R | A | W | S | E | H | D | F | C | J | Q | L | O | H | S | K | C | S | Z |
| F | Y | U | U | F | R | L | S | Z | L | A | T | C | P | P | X | P | U | I | Q |

Yn y Chwilair mis yma mae ENW DEUDDEG LLE YNG NGHYMRU i'w darganfod. Mae un cliw wedi ei ddangos yn barod. A oes modd i chwi ddod o hyd i'r gweddill? (Mae LL, CH, DD, TH, acyb yn **un** llythyren yn y Gymraeg, ond i bwrpas y Chwilair dangosir hwynt fel dwy lythyren ar wahân).

Atebion gydag enw a chyfeiriad i Andre Lomozik, Zakopane, 7 Rhos y coed, Bethesda, Bangor, Gwynedd LL57 3NW, erbyn 25 Tachwedd. Bydd gwobr o £10 i'r enw cyntaf allan o'r het. Os na fydd unrhyw un wedi canfod y deuddeg, yna'r rhif agosaf fydd yn cael y wobr.

**Dyma atebion Chwilair Hydref.**
Albert Inn; Cae Ifan Gymro; Chwarel Goch; Coetmor Arms; Glanrafon; Halfway House; Hen Barc; Nant y Benglog; Pant Glas; Peniel; Sychnant; Tyddyn Isaf.
Diolch yn fawr i chwi oll am rhoi cynnig ar y Chwilair.
Nid oedd Chwilair mis diwethaf mor hawdd gan fod gwahanol bynciau i'w darganfod, a'r ffaith nad oeddwn wedi gallu rhoi cliw i chwi, ac oherwydd hynny ni dderbyniais lawer o atebion drwy'r post. Rwyf felly, wedi mynd yn ôl i'r hen drefn gydag un pwnc a cliw i chwi y mis yma. Pob hwyl!

**Dyma enwau'r rhai a gafodd yr atebion cywir:-** Emrys Griffiths, Rhosgadfan; Barbara Anne Conlan, Glanogwen; Rosemary Williams, Tregarth; Gwenda Roberts, Rhosmeirch; Merfyn a Laura Jones, Halfway Bridge; Gwenda Bowen, Gerlan; Elizabeth Buckley, Tregarth; Eirwen Owen, Erw Las.

**Enillydd Hydref oedd:-** Gwenda Roberts, Gorwel Deg, Rhosmeirch, Ynys Môn, LL77 7SJ.

# Noson Wobrwyo Bowls Bethesda gyda Bys a Bawd



Heddwyn Morris yn wên o glust i glust wedi cael ei goroni'n bencampwr y parau yn y gynghrair hŷn




Delyth Williams a Guto Sionc wedi derbyn eu tlws fel pencampwyr parau nos Lun.

Daeth y tymor bowlio i ben am eleni gyda noson wobrwyo yn y Clwb Criced a Bowlio i gyflwyno gwobrau i chwaraewyr mwyaf llwyddiannus y tymor. Cyflwynydd y noson oedd Brynmor Jones ac mae Brynmor yn ysgrifennydd bowls Bethesda ac yn gapten ar y tîm nos Fercher.

Mae pedwar tîm yn chwarae mewn gwahanol gynghreiriau. Ar Nos Lun mae tîm o dan arweinyddiaeth Callum Sorfleet o Fangor yn chwarae yn erbyn timau o bell ac agos ac eleni daethant yn 3ydd yn y gynghrair gyda 121 o bwyntiau. Dim ond dau bwynt oedd rhyngddyn nhw a Cricieth, y buddugwyr, gyda 123 o bwyntiau.

Chwaraewr mwyaf llwyddiannus y tîm nos Lun oedd Siôn Guto Roberts. Siôn hefyd ydy capten tîm Dydd Sadwrn a ddaeth i'r brig yn Adran 'C' ac sydd wedi cael eu dyrchafu i Adran 'B' (nid Adran 'A' fel yr adroddwyd y mis dwytha')



Denzil Jones, pencampwr y chwaraewyr hŷn, yn derbyn ei wobr gan Brynmor. Chwaraeodd Denzil 18 gêm gan ennill 10.




Siôn Guto a Callum Sorfleet, dau a chwaraeodd ran allweddol yn nyrchafiad tîm dydd Sadwrn i Adran 'B'




## Pêl-Rwyd

Llongyfarchiadau i dîm Pêl-rwyd Bethesda ar eu buddugoliaeth yng Nghynghrair Pêl-rwyd Môn a Gwynedd dros yr Haf.

Hefyd hoffai Tîm Merched Pêl-rwyd Bethesda gymryd y cyfle i ddiolch i Carys Davies So Chic a Siôn Roberts o gwmni Roberts Brothers Transport (RBT) am eu caredigrwydd hael wrth iddynt noddi'r tîm.

Mae hyn wedi galluogi'r genod i allu brynnu ffrogiau a hwdi. Mae'r genod yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth ac yn edrych ymlaen i gystadlu yn Gyngrair Pelrwyd Mon a Gwynedd gaeaf ma.

Ogwen
Adferiad Corfforol
Physical Rehabilitation
Proffesiynol, diogel a chyfrinachol
LLEDDFU POEN Cefn, cyhyrau, esgyrn, cymalau, a thensiwn cur pen
Eli Lichtenstein
07743373895 Ogwen.Physical.Rehab@gmail.com